PAPUR BRO GENAU'R-GLYN, MELINDWR, TIRYMYNACH, TREFEURIG A'R BORTH

# y tincer

PRIS 75c | Rhif 406 | Chwefror 2018



Gwobr i Osian

t.7

Lledu'r ffordd




t.19

Miriam yn seren y Panto



t.18

## Llifogydd Llandre







Fel sawl lle arall cafodd Llandre ei chyfran o gyffro ddydd Sul 21 Ionawr, pan orlifodd y nant drwy'r pentref. Roedd hi wedi bod yn bwrw'n drwm ers oriau, ond doedd dim arwydd bod unrhyw beth anarferol ar droed tan amser cinio. Toc wedi un o'r gloch y cychwynnodd hi, wrth i ormod o ddŵr arllwys i lawr y ceunant i lifo o dan borth y fynwent. Ymhen dim, roedd y dŵr yn rhuthro i lawr lôn fach yr eglwys, yn chwalu'r gornel ac yn sgubo i lawr y ffordd tua'r rheilffordd. Roedd yn anodd credu nerth y dŵr – boncyffion a cherrig oedd yn rhy drwm i'w codi, yn cael eu llusgo gyda'r llif i lawr drwy'r pentref. Mae dau foncyff mawr a gariwyd gan y dŵr wedi eu gosod y tu allan i Dolgelynen, os hoffech brawf o'i rym!

Mae'n brawf o gymeriad y gymuned y daeth cymaint at ei gilydd y prynhawn hwnnw i geisio atal y dŵr rhag niweidio tai ac eiddo. Does dim diben ceisio enwi pawb a fu wrthi'n clirio sianel y nant, yn dargyfeirio'r dŵr ac yn gosod bagiau tywod a chloddiau pridd i arbed y dŵr rhag llifo i gartrefi, heb sôn am glirio'r llanast a adawodd yn ei sgil. Digon yw dweud y cafwyd cymorth gan drigolion o bob cwr o'r pentref yn ogystal â ffermwyr ac eraill sy'n byw ar gyrion Llandre.

Erbyn machlud haul, llwyddwyd i agor digon o sianel i'r rhan fwyaf o'r dŵr allu llifo o dan a heibio porth y fynwent, er mwyn i'r nant arllwys eto fel y dylai i lawr i'r draeniau islaw'r eglwys.

Ni chafwyd llif fel hwn yn y pentref ers degawdau lawer a byddwn yn cofio amdano am amser hir i ddod eto. Ond cofiwn hefyd am y ffordd y daeth y gymuned at ei gilydd i helpu. Diolch i bob un a estynnodd law y prynhawn gwlyb iawn hwnnw, a'r dyddiau wedyn.

# y tincer

**Sefydlwyd Medi 1977**
**Aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion**

**ISSN 0963-925X**

**GOLYGYDD – Ceris Gruffudd**
Rhos Helyg, 23 Maesyrefail, Penrhyn-coch
☎ 828017 | YTincer@googlemail.com
**TEIPYDD – Iona Bailey**
**CYSODYDD – Elgan Griffiths** ☎ 627916
**GADEIRYDD A THREFNYDD CYFEILLION Y TINCER – Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno, Goginan ☎ 880228
**IS-GADEIRYDD – Richard Owen,**
31 Glan Ceulan, Penrhyn-coch ☎ 820168
**YSGRIFENNYDD – Anwen Pierce**
3 Bryn Meillion, Bow Street ☎ 828337
**TRYSORYDD – Hedydd Cunningham**
Tyddyn-Pen-y-Gaer, Llandre, Aberystwyth
☎ 820652 hedyddcunningham@live.co.uk
**HYSBYSEBION – Cysyllter â'r Trysorydd**

**TASG Y TINCER – Anwen Pierce**
**TREFNYDD GWERTHIANT – Lila Piette**
Llys Hedd, Bow Street ☎ 820223

**ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL**
**Mrs Beti Daniel**
Glyn Rheidol ☎ 880 691
**Y BORTH – Grace Bailey**, Pencarreg, Stryd Fawr, Y Borth ☎ 871462
**BOW STREET**
**Mrs Mair Lewis**, 40 Maes Ceiro ☎ 828 102
**Lynn Phillips**, 1 Cae'r Odyn ☎ 820 908
**Anwen Pierce**, 3 Bryn Meillion ☎ 828 337
**Maria Owen**, Gerddi Gleision ☎ 822074
**CAPEL BANGOR / PEN-LLWYN**
**Mrs Aeronwy Lewis**
Rheidol Banc, Blaengeuffordd ☎ 880 645
**CAPEL MADOG, CEFN-LLWYD A CAPEL DEWI**
**Eirian Hughes**, Lluest Fach ☎ 880 335
**Elwyna Davies**, Tyncwm ☎ 880 275
**Dei Evans**, Fferm Fronfraith, Comins-coch ☎ 623 660
**DÔL-Y-BONT**
**Mrs Llinos Evans** – Dôlwerdd ☎ 871 615
**DOLAU**
**Mrs Margaret Rees** – Seintwar ☎ 828 309
**GOGINAN**
**Mrs Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno ☎ 880 228
**LLANDRE**
**Mrs Nans Morgan**
Dolgwiail, Llandre ☎ 828 487
**PENRHYN-COCH**
**Mairwen Jones** – 7 Tan-y-berth ☎ 820 642
**TREFEURIG**
**Mrs Edwina Davies**
Darren Villa, Pen-bont Rhydybeddau ☎ 828 296


# dyddiadur

**Rhifyn Mawrth** Deunydd i law: Mawrth 2 **Dyddiad cyhoeddi**: Mawrth 14

**CHWEFROR 17** Nos Wener Noson o adloniant yng nghwmni Côr Meibion Machynlleth yng Ngwesty'r Marine, Aberystwyth am 7.00 £25 am fwyd (2 gwrs) ac adloniant. Tocynnau ar gael trwy gysylltu ag Owain neu Fflur ar 01650 511215 neu Gwesty'r Marine 01970 612444

**CHWEFROR 17-18** Dyddiau Sadwrn a Sul Pedair rownd gyn-derfynol Band Cymru (S4C) yng Nghanolfan y Celfyddydau am 2.30 ac 8.00 Tocynnau ar gael o 10.00 y bore dydd Llun 15 Ionawr trwy ffonio 02920 223456

**CHWEFROR 17** Dydd Sadwrn Gwobrau Selar Undeb Myfyrwyr Aberystwyth

**CHWEFROR 19-23** Llun i Gwener Ysgolion Ceredigion ar gau – gwyliau hanner tymor

**CHWEFROR 21** Nos Fercher Wil Aaron yn trafod *Poeri i lygad yr eliffant – anturiaethau'r Saint Cymreig yn y Gorllewin Gwyllt* ( Y Lolfa) Cymdeithas y Penrhyn yn festri Horeb am 7.30

**CHWEFROR 28** Nos Fercher Recordio Galwad Cynnar (Radio Cymru) ar wahoddiad Ffrindiau Pantycelyn yn recordio rhaglen ym Morlan, Aberystwyth. Drysau ar agor - 6.30 (recordio 7yh - tan tua 8.30) - y gynulleidfa i fod yn eu lle erbyn 6.45 - ond gall pobl ymgynnull yn y 'foyer' o tua 6.30 i gael paned. Croeso i bawb - mynediad am ddim. Os hoffech ofyn cwestiwn i'r panel, a allech chi ei anfon i Bethan (bethan.crwth@gmail.com) erbyn Chwefror 3ydd os g. yn dda.

**MAWRTH 3** DyddSadwrn Parêd Gŵyl Ddewi Aberystwyth

**MAWRTH 3** Nos Sadwrn Noson Hwyl Ddewi gyda Bois y Gilfach yn Neuadd Goffa Tal-y-bont. Adloniant i gychwyn am 7.30; gweinir y cawl am 6.40. £8 i oedolion; £4 i blant ysgol

**MAWRTH 4** Dydd Sul Oedfa Gŵyl Ddewi gyda Delwyn Siôn am 10.00. Trefnir gan Morlan ac eglwysi Cymraeg Aberystwyth fel rhan o weithgareddau penwythnos Parêd Gŵyl Dewi Aberystwyth.

**MAWRTH 6** Dydd Mawrth Cwmni'r Frân Wen yn cyflwyno Wy chips a nain yng Nghanolfan y Celfyddydau, Aberystwyth am 1.00 a 6.00

**MAWRTH 16** Nos Wener Noson gyda Glan Davies Cymdeithas Lenyddol y Garn ym Methlehem, Llandre am 7.00

**MAWRTH 17** Nos Sadwrn Cinio Gŵyl Ddewi Cymdeithas y Penrhyn – yng Ngwesty'r Marine, Aberystwyth – 7.00 ar gyfer 7.30. Enwau i Gwerfyl Pierce Jones 01970 -828884 gwerfylpj@gmail.com cyn Mawrth 12.

**MAWRTH 18** Pnawn Sul Gwenno - sioe arbennig brynhawn Sul gan Gwenno Saunders yn Amgueddfa Ceredigion; drysau yn agor am 2.00 Tocynnau: £2

**MAI 10** Nos Iau Darlith gan Mererid Hopwood yn Horeb, Penrhyn-coch am 7.00 Trefnir gan Gymdeithas Cofio a Myfyrio. Mynediad am Ddim Gwneir casgliad ar y diwedd tuag at Gymdeithas Waldo a Chymdeithas y Cymod


Cyhoeddir y Tincer yn fisol o Fedi i Mehefin gan Bwyllgor y Tincer. Argreffir gan y Lolfa, Tal-y-bont. Nid yw'r Pwyllgor o angenrheidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn a fynegir yn y papur hwn. Dylid cyfeirio unrhyw newyddion i'ch gohebydd lleol neu i'r Golygydd, ac unrhyw lythyr neu ddatganiad i'r wasg i'r Golygydd.

Y mae pawb sy'n ymwneud â'r Tincer yn gwneud hynny'n wirfoddol ac yn ddi-dâl er budd y gymuned leol. Nhw fel unigolion sy'n derbyn pob risg a chyfrifoldeb (cyfreithiol ac fel arall) gan dderbyn mai ar y telerau hynny y maent yn cyfrannu at y papur a'i ddosbarthiad.

## CYFEILLION Y TINCER

Dyma fanylion enillwyr Cyfeillion y Tincer Mis Ionawr 2018

**£25** (Rhif 183) Rhian Benjamin, Gorwel Deg, Taigwynion, Llandre

**£15** (Rhif 84) Eirwen Hughes, Pen-cwm, Bow Street

**£10** (Rhif 57) Eirwen Sedgewick, Rheidol House, Capel Bangor

Fe dynnwyd y rhifau buddugol gan aelodau o'r tim dosbarthu yn festri Bethlehem, Llandre pnawn Mercher Ionawr 17

Diolch i'r aelodau sydd wedi ail ymaelodi ac hefyd croeso i'r aelodau newydd.

## 30 MLYNEDD YN OL



Llun o drigolion y pentref wrth y gatiau, yn y brotest, ddydd Sadwrn y 6ed. Llun: Anthony Pugh

Protest trigolion Llandre 6 Chwefror 1988 fod Y Rheilffyrdd Prydeinig yn awtomeiddip y groesfan trwy dynnu'r gatiau, diswyddo'r gofalwyr a chael croesfan awtomatig gyda goleuadau yn eu lle. (O *Dincer* Chwefror 1988)

### GŴYL DDRAMA CORWEN A'R CYLCH 2018

Gyda thymor cyflwyno dramâu mewn sawl tre a phentref yn ei hanterth, dyma gyfle i dynnu sylw at Wŷl Ddrama Corwen fydd yn cael ei chynnal eleni rhwng Mai 7-12. Lleolir yr Ŵyl flynyddol hon yn Neuadd Edeyrnion yng nghanol tre Corwen ac eleni rydym yn dathlu 37 mlynedd ers ei sefydlu.

Y Beirniad eleni yw Steffan Parry. Wedi ei fagu ar fferm Tu Ucha'r Llyn ym mhentref Gwyddelwern, ger Corwen, Steffan oedd enillydd Gwobr Goffa Richard Burton yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Meifod yn 2013. Wedi graddio o Goleg y Drindod, Caerfyrddin, yn dilyn cwrs drama, bu'n actio ar y gyfres deledu Rownd a Rownd yn ogystal â chynyrchiadau eraill cyn troi at fyd addysg.

Mae gan yr Ŵyl gystadlaethau chwarae drama un act Cymraeg i wahanol oedran yn ogystal â chystadleuaeth cyflwyniad i grŵp o ddysgwyr y Gymraeg.

Eleni cynigir cystadleuaeth newydd sbon eleni - sef Cyflwyno Monolog bedwar munud o hyd i actorion 19 oed ac iau. Testun: agored.

Bydd tlysau/cwpanau i actor a chwmni gorau ymhob oedran yn ogystal â gwobr ariannol.

Yn ogystal â'r cystadlaethau llwyfan, mae gan yr Ŵyl flynyddol hon gystadleuaeth ysgrifennu drama un act. Dylid anfon y gwaith i'r ysgrifennydd erbyn Ebrill 1.

Beth am fynd amdani gwmnïau drama? Dewch draw i Gorwen ym mis Mai i gystadlu am wobrau yn un o wyliau drama hynaf Gogledd Cymru. Bydd croeso cynnes yn eich disgwyl ym mro Edeyrnion.

Am fwy o fanylion neu ffurflen gais, (dyddiad cau dychwelyd ffurflen gais yw Mawrth 31), cysylltwch â'r Ysgrifennydd, Nesta Evans, Frondeg, Maerdy, Corwen. LL21 0NY. Ffôn: 01490 460361 Gweplyfr: Gŵyl Ddrama Corwen a'r Cylch.

## CRONFA GOFFA'R FONESIG GRACE JAMES

Gwahoddir ceisiadau oddi wrth fudiadau neu gymdeithasau'r henoed am gymorthdal o'r gronfa uchod. Dylai'r gymdeithas fod o fewn ffiniau hen Gyngor Dosbarth Aberystwyth. Gellir cael ffurflenni cais oddi wrth yr ysgrifennydd a dylid eu dychwelyd cyn 31 Mawrth 2018.

Yr ysgrifennydd yw
Delyth Davies
Bryn Siriol
Lluest
Llanbadarn Fawr
Aberystwyth
SY23 3AU
01970 617397
*martin.davies1@mypostoffice.co.uk*


Morlan
Canolfan ffydd a diwylliant
Centre for faith and culture

**NOSON GWIS MORLAN**
**7.30, nos Fercher, 7 Chwefror**
Cwis blynyddol ble mae timau o eglwysi lleol yn cystadlu am Darian Her Morlan. Beth am ffurfio tîm? Neu dewch draw i gefnogi!

**OEDFA GŴYL DEWI**
**10.00, bore Sul, 4 Mawrth**
Ymwunwch â ni i ddathlu ein nawdd sant yn yr oedfa arbennig hon sy'n rhan o weithgareddau penwythnos Parêd Gŵyl Dewi.

**morlan.cymru**
**01970-617996; post@morlan.cymru**


### DYDDIAD I'R DYDDIADUR

**Wil Tân a Clive Edwards**
yng Ngwesty Llety Parc, Aberystwyth
**nos Sadwrn 7 Ebrill**
Tocynnau: £10
Holl elw'r noson tuag at Uned Cemotherapi, Ysbyty Bron-glais

# CAPEL BANGOR / PEN-LLWYN

**Suliau Pen-llwyn**

*Chwefror*

18 2.00 Adrian Williams
25 5.00 Carwyn Arthur

*Mawrth*

4 5.00 Roger Ellis Humphreys
11 10.00 Bugail (Cymun)
18 2.00 Beti Griffiths
25 2.00 Terry Edwards

**Merched y Wawr Melindwr**

Nos Fawrth 9fed Ionawr, cynhaliwyd cyfarfod cyntaf 2018; roedd llawer o ymddiheuriadau oherwydd salwch. Mwynhaodd pawb gymdeithasu a nodi'r hysbysebion. Roedd llawer o ddiddordeb mynychu cwrs Creft y De yn Nhy-glyn Aeron ar y 3ydd o Fawrth. Nodwyd hefyd cystadlaethau Gwŷl Mai yn Felin-fach ar 12 Mai.

Croesawyd Ruth Jên - merch leol o Gefn-llwyd gaiff ei hadnabod fel "Arlunydd wal y Lolfa." Gweld menywod yn y wisg Gymreig yn yfed te fel oedd i'w gweld ar hen gardiau post roddodd y syniad iddi. Aeth ymlaen i greu Menywod Cymreig mwy cywir, ac erbyn hyn maent yn enwog ac yn rhan bwysig o'i gwaith.

Dangoswyd sut i greu llun gan baratoi 'r papur ymlaen llaw, yna dilyn hyn gan rolio'r inc du ar wyneb darn o perspex cyn argraffu llun y menywod - triongl ar gefn y papur gyda gwneud yn sicr ei bod yn gweithio cyn ei dynnu i ffwrdd. Ar ôl gadael iddo sychu am ddeuddydd byddai yn lliwio gyda phaent lliwddŵr. (*watercolour*).

Yn ddiweddar mae'n ychwanegu geiriau neu bennill yn Gymraeg sydd yn creu rhiywfaint o hiraeth am y dyddiau gynt. Diolchodd Lynne ein Llywydd i Ruth Jên am noson mor ddiddorol a phleserus. Cafwyd cyfle i brynu rhai o'i chardiau cyn mwynhau paned o de, gafodd ei pharatoi gan Angharad Jones ac Elinor Jones.

Y mis nesaf byddwn yn ymweld â China gyda merch arall leol – Joyce George.

Er ei bod yn noswaith rewllyd daeth bron ugain o aelodau i'r cyfarfod misol. I gychwyn cafwyd cofnodion cyfarfod mis Ionawr. Ar ôl trafod rhai materion personol a hysbysebion y mudiad aeth Lynne Davies ein Llywydd ymlaen i groesawu merch leol gynt. Mwynheuodd pawb fynd ar daith gyda Joyce George i China - dim am wyliau haf ond i dreulio chwe diwrnod yn ysgol gynradd o 1,800 o blant yn agos i Beijing. Trwy gyfrwng taflunydd dangosodd luniau hyfryd yn dangos sut fath o groeso gafodd a pha fath o addysg roedd y plant yn dderbyn.

Roedd yn amlwg bod diwrnod ysgol yn hollol wahanol i blant yn y wlad yma, gyda pob dydd yn cychwyn hefo gwasanaeth, ac yn rheolaidd yn cynnwys deg munud o ymarfer corff y tu allan o flaen llwyfan anferth o garreg. Llun mawr o Confucius oedd yn eu hatgoffa fod rhaid dangos parch i'w addysg ac i'w gilydd.

Gwelwyd gwasanaeth arbennig "y trydydd llygaid " i dderbyn plant newydd i fewn wrth addurno gyda spoten goch canol talcen. Roedd y ffordd o ddysgu yn hollol drefnus a phlant ac athrawon yn cystadlu i wella'i potensial a'u bywydau.

Ar ôl dwy awr i ginio a lle i orffwys os oedd eisiau, roedd y clybiau creft yn cymryd lle tan amser mynd adref. Yna roeddynt yn cael eu hyfforddi gan eu rhieni os oedd angen cyn dychwelyd trannoeth wedi deall pob dim.

Ar ôl ambell gwestiwn daeth y noson i ben gyda diolchiadau a paned wedi ei pharatoi gan Gwenda Morgan ac Eirwen Sedgewick, gyda Lis Collison yn ennill y raffl. Mis nesaf – ar y 6ed o Fawrth byddwn yn dathlu Gŵyl Ddewi yn Llety Parc am 7.30.

**Ysbyty**

Dymunwn wellhad buan i'r rhai a fu yn yr ysbyty yn ddiweddar, sef Mr John Howells, Pencoed, a Mr Maldwyn James, Afallon.

**Cydymdeimlad**

Estynnwn ein cydymdeimlad i Mrs Ann Davies, Maencrannog, Delyth a Iona, sydd wedi colli brawd yng nghyfraith ac ewythr yn ddiweddar, sef Mr Iwan Jones, Llangwyryfon priod y diweddar Gwenfil.

**Genedigaeth**

Mae Mr a Mrs Hogger, Plas Melindwr, wedi cael wyres fach yn ddiweddar – Millie Elizabeth, o Swydd Caergrawnt. Mae tad-cu a mam-gu wrth eu boddau.

Llongyfarchiadau iddynt fel teulu.

**Artistiaid**

Mae gwaith Seren Morgan Jones, yn Amgueddfa Ceredigion, o 'nawr hyd Ebrill 16eg. Yn ddiddorol ddigon, hi yw'r drydedd genhedlaeth o artistiaid benywaidd yn ei theulu. Mae yn dilyn ôl traed ei mam, Annie Morgan Suganami ('Annie Ffliwt' i nifer o'i chyn-ddisgyblion) ei mam-gu, y ddiweddar Nest Davies, Dolau a'i nain, yr artist Margaret Jones, fu'n byw ym Mronllys, Capel Bangor am flynyddoedd. Mae Seren yn byw bellach yn Llundain. Dymuniadau gorau iddi.

**Cytundeb Dydd Gwener y Groglith**

Mae yn syndod i feddwl fod ugain o flynyddoedd, wedi mynd heibio bellach,ers arwyddo cytundeb Dydd Gwener y Groglith, yng Ngogledd Iwerddon. Ym 1998 dechreuwyd y broses heddwch, ar ôl 30 o flynyddoedd gwaedlyd o anghytuno.

Wrth gofio am hyn, ceisio chwilio am yr ysgrif a ymddangosodd yn y *Goleuad,* dau ddeg saith o flynyddoedd yn ol, a llwyddo! gan obeithio y bydd o ryw ddiddordeb i rywun.

**Eglwys Dewi Sant**

Cynhaliwyd noson goffi ar nos Wener, 1 Rhagfyr 2017 yn Neuadd yr Eglwys. Cafwyd adloniant hyfryd ac ardderchog gan Merched Bro'r Mwyn. Y cyfeilydd oedd Lona Phillips o Abermagwr. Mae Lona yn gyfeilydd arbennig a dawnus dros ben. Tynnwyd y raffl fawr yn ystod y noson. Cyflwynwyd y parti a diolchwyd gan Mrs Nancy Evans a'r Parchedig Heather Evans.

Ar nos Sul, 17 Rhagfyr 2017 cynhaliwyd gwasanaeth o garolau yng ngolau'r gannwyll. Darllenwyd y llithiau a'r penillion gan yr aelodau a'r Parchedig Heather Evans. Yr Organydd oedd Mr Maldwyn James. Cafwyd eitemau unigol gan yr organydd, ar y piano, lle canodd ddarnau hyfryd a swynol. Dyma i chi ddawn arbennig sydd gan Maldwyn. Hyfryd oedd gweld cymaint o gynulleidfa yn bresennol. Roedd y gwasanaeth yng ngofal Y Parchedig Heather Evans. Cafwyd paned a mins peis yn Neuadd yr Eglwys ar ôl y gwasanaeth.

Ar noswyl Nadolig cafwyd gwasanaeth hwyrnos am 11 yng ngofal Y Parchedig Heather Evans. Hefyd cafwyd gwasanaeth ar fore dydd Nadolig, gwasanaeth o Gymun Bendigaid am 9.30 yng ngofal Y Parchedig Heather Evans. Yr organydd oedd Mr Billy Evans.

**Cynllun Chwaraeon Gogledd Iwerddon 1991** gan Berian Lewis

'Rwyf yn ddyledus ac yn dra ddiolchgar, i Gymdeithas y Cymod am fy noddi am yr aildro, i fynd ar y daith i Lurgan, Gogledd Iwerddon, i fod yn rhan o'r Cynllun Chwaraeon yno.

Pan yn y coleg, fi oedd yn penderfynu sut i dreulio misoedd yr haf. Eleni yr oedd yn dra gwahanol, wedi cael swydd dros dro yn yr uned 'Gofal Plant' gyda Gwasanaethau Cymdeithasol Gwent. Rhaid oedd eu perswadio, fy mod angen tair wythnos ar ei hyd, ar ôl bod yno, ond chwe mis! Yr oeddwn yn benderfynol o fynd i Lurgan, pe

golyga hyn rhoi i fyny fy swydd, a chael fy adfer wedi dod yn ôl. Ond ni ddaeth i hynny, yr oedd pawb yn garedig iawn. Cefais pythefnos o wyliau a oedd yn ddyledus, ac wythnos ychwanegol i'w talu yn ôl pe bawn yn gadael cyn hyn a hyn o amser. Ac felly y bu, i mi deithio i Lerpwl, ar ôl gwaith nos Wener, galw yn fy nghartref yn Capel Bangor, am ychydig o oriau, ac ymlaen i ddal yr awyren am chwech o'r gloch bore Sadwrn. Disgyn yn Belfast, i gael fy nghludo i Lurgan, gan wasanaeth tacsi rhieni un o ffrindiau y llynedd. Yr oeddwn erbyn hyn yn teimlo'n eithaf cyffrous. Faint o ffrindiau y flwyddyn cynt a fyddai yno? A fyddwn yng ngofal yr un plant?. . . ac yn y blaen.

*Lurgan*

Tref ar ochr ddeheuol Loch Neagh, yw Lurgan, ac yn ystod y flwyddyn a aeth heibio, wedi gweld llawer yn cael eu lladd oherwydd yn syml, fod y person naill ai'n genedlaetholwr, neu ar yr ochr arall, yn deyrngarwr. Dyma un o drefydd mwyaf rhanedig Gogledd Iwerddon, rhanedig yn nhermau ysgolion ar wahân, tai ar wahân, a chrefydd wrth gwrs. Yn flynyddol, mae Canolfan y Phoenix, lle yr oeddwn yn sefyll, sef Canolfan Groes Gymunedol y dref, yn trefnu cynlluniau chwarae i blant o'r ddwy gymuned , am dair wythnos pob haf. Yr oeddwn yn falch, o gael bod yn un o'r gwirfoddolwyr yn gweithio gyda'r un plant eleni eto, sef plant o ystâd Babyddol Shankill, tua 60-70 mewn nifer. Ond wrth gwrs nid oedd pob plentyn yn troi i fyny pob dydd. Yr oedd yn waith digon caled a blinedig, i'w gwarchod a'u diddori, drwy



chwarae gêmau, gwneud celf a chrefft, nofio, gwersylla, cerdded ac ati; ond serch hynny yn waith boddhaol. Y mae y plant wedi eu magu yn sŵn gynnau a milwyr, ac y maent i gyd yn byrlymu â hyder.

Ar ddiwrnodau arbennig, 'roedd Canolfan y Phoenix yn trefnu gwibdeithiau i ychydig o blant o bob canolfan. Dyma'r cyfle prin a gawsai plentyn i sgwrsio gyda phlentyn arall o'r wahanol grefydd. Er yr hoffai llawer i weld mwy o gymysgu yn ystod y dair wythnos, mae unrhyw beth yn well na dim yn y cyswllt yma. Wedi dweud hyn, rhaid ychwanegu mai dim ond ffŵl fyddai'n disgwyl i'r Cynllun Chwaraeon yn Lurgan ddatrys y broblem yno. Serch hynny, mae YN medru dangos i'r plant a'r trigolion yn y dref bod yna OBAITH – gobaith i'r dyfodol am heddwch a chymod rhwng y ddwy gymuned.

Y mae y rhaniad yng Ngogledd Iwerddon yn ddwfn, ac anodd yw gweld diwedd i'r helyntion, yn enwedig dros nos fel petai. Yn sicr y mae arnynt angen ein gweddiau.

*Yr angen am newid*

Y mae y digwyddiadau yn Nwyrain Ewrop a'r Almaen, wedi dangos bod modd newid sefyllfa, pan bydd dyn yn lleisio barn. Yng Ngogledd Iwerddon rhaid i'r trigolion yn gyntaf, groesi'r ffin sy'n rhannu'r ddwy gymuned. Nid hawdd yw gwneud hynny dan gysgod parhaus mudiadau fel yr U.V.F. a'r P.I.R.A.

Tra fum yno, cawsom ddwy noson o ddarlithiau; un gydag arweinwyr yr eglwysi ac un politicaidd. Diddorol iawn oedd gofyn cwestiynau a dadlau ymhlith ein gilydd.

Beth oedd uchafbwynt y dair wythnos? Credaf yn sicr mai y diwrnod chwaraeon a drefnwyd, oedd hwnnw, pan oedd y plant yn cynrychioli tîmau fel 'Y Pengwins' a'r 'Mwncïod' ac ati, ac nid yn ôl yr ystâd 'roeddent yn byw ynddo. Hefyd yr orymdaith drwy ganol y dref ar y diwrnod olaf, gyda baneri heddwch ac a ddilynwyd gan 'Gyflwyniadau' a hynny gan pob un o'r chwe Cynllun Chwarae.

Yr oeddem yn 35 o wirfoddolwyr, rhai o'r Almaen, Gwlad y Basg, Unol Daleithiau'r Amerig, Gogledd Iwerddon a minnau o Gymru (neb o Loegr), a do, mi gefais dair wythnos i'w cofio.Teimlad eithaf fflat oedd gadael am yr awyren bore ddydd Sadwrn 10ed o Awst. Er mai dim ond dwywaith yr wyf wedi ymweld â'r dref, y mae gennyf ffrindiau da yno, ac y mae'r croeso yn gynnes. Teimlaf yn sicr byddaf yn mynd 'nôl eto ryw ddydd.

## MADOG, DEWI, CEFN-LLWYD

**Suliau Madog**
**2.00**
*Chwefror*
18 Bugail
25

*Mawrth*
4
11 Rhidian Griffiths
18 Bugail
25 Beti Griffiths

**Genedigaeth**
Llongyfarchiadau i Rhydwen a Sara Mitchell, Maes y Dderwen, Capel Dewi ar enedigaeth eu merch Greta Llwyd, chwaer i Cadi Marged.

**Dymuniadau Gorau**
Pob dymuniad da i Cledan Jones, Tŷ Mawr, Capel Madog gynt sydd yng nghartref gofal Plas y Dderwen, Caerfyrddin.

**Profedigaeth**
Cydymdeimlwn â Dai a Lyn Evans, Deilyn, Cefnllwyd, ar golli ewythr, Mr John Lloyd o Ledrod.

**Gwella**
Braf deall fod Arthur Hughes, Lluest Fach, yn gwella ar ôl ei anffawd.

## DOL-Y-BONT

**Penodi i Gerddorfa**
Llongyfarchiadau i Jason Lewis, Cysgod y coed, sydd wedi ei benodi i swydd Prif Drwmpedwr cerddorfa Scottish Opera. Mae Ian Smith, gynt o Lon Glanfred, Llandre, yn dal swydd y Pedwerydd Corn yn yr un gerddorfa.

**Brysiwch wella**
Dymunwn wellfad buan i Mair Evans, Pant y Dwn sydd yn yr ysbyty.

## TREFEURIG

**Brysiwch wella**
Da deall fod Hywel Lewis Cwmerfyn Farm adref ac yn gwella ar ôl bod yn derbyn llawdriniaeth yng Nghaerdydd.

# Y BORTH



**Cydymdeimlad**
Cydymdeimlwn â Christine Lloyd, Penlon, ar farwolaeth Stuart ar 20 Ionawr.

Cynhaliwyd yr angladd yn Amlosgfa Aberystwyth ar 31 Ionawr. Derbyniwyd rhoddion tuag at Ambiwlans St Ioan ac Uned Gofal Lliniarol Ysbyty Bron-glais trwy law Gwyn Evans (Trefnwyr Angladdau), Llandre.

Cydymdeimlwn hefyd â Heulwen Lewis, Penwern, Y Borth ar farwolaeth ei hewythr – John Lloyd – yn Lledrod yn ddiweddar.

Ac â Mark Williams a'r teulu ar farwolaeth mam Mark – Pauline Williams, Morawel, ar Chwefror 3ydd.

**Genedigaethau**
Llongyfarchiadau i Rhiannon a Neeson Richards ar enedigaeth wyres fach. Molly yw ei henw ac mae'n ferch i Dylan a Becky ac yn chwaer i Jack. Maent yn byw yn Norwick, Ynysoedd Shetland.

Llongyfarchiadau i Dei a Lyn Morgan, Brynheulog, ar enedigaeth wyres fach o'r enw Safhiya. Merch fach i Richard a Taghrid El-mawen Layton, Caeredin.

**Brysiwch wella**
Dymunwn yn dda i Iorwerth Mason, Ffosygrafel sydd yn ysbyty Bronglais ar hyn o bryd. Gobeithio y bydd adre yn fuan.

**Cymdeithas Henoed**
Dechreuwyd cyfarfod dechrau Chwefror gyda sesiwn Aerobics eistedd i lawr yn cael ein cynorthwyo gan Annette. Ymunodd yr holl aelodau – o 56 i 98 a buom yn ymarfer ac ymestyn o'n corun i'r sawdl. Roedd yn sesiwn wych a fwynhawyd gan bawb. Fel gwobr am yr holl waith caled, ac i ddathlu pen blwydd Mrs. Ann Newby, ein Llywydd, c uno aelodau hynaf y grŵp cawsom de a chacennau. Roedd Ann yn 98 dydd Sadwrn ac mae'n debyg mai hi yw trigolyn hynaf y Borth. Pen blwydd hapus hefyd i Joan, Gordon ac Yvette.

Bydd ein cyfarfod nesaf dydd Iau Chwefror 15ed am 2.00 y p yn Neuadd Gymunedol y Borth pan fydd Helen Palmer o Archifdy Ceredigion yn dod I siarad a ni.  Dowch i ymuno â ni. Bydd yn werth dod a byddai croeso cynnes chi.


**Dathlu Pen blwydd**
Roedd Mrs Ann Newby yn 98 ar Ionawr 27ain. Credwn mai hi yw un o drigolion hynaf y Borth. Mae'n Llywydd Cymdeithas Henoed y Borth a than yn ddiweddar roedd yn addoli yn ffyddlon yn Eglwys St. Matthew. Mae'n mynychu Clwb Cinio y Wildfowler unwaith y mis, yn cefnogi Canolfan Deulu y Borth ac RNLI y Borth ac mae yn aelod o Glwb Dydd Mawrth y Borth – lle mae llawer o fwyta, yfed te a choffi a siarad yn digwydd yn wythnosol – unai yn Oriel Tir a Mor yn y Borth neu Crefftau Pennau yn Bow Street. Mae ganddi ferch Christine a mab Trevor, wyres Sarah (ddim yn y llun), Gorwyr Martin (ddim yn y llun) a dau gor or wyr sydd yn mynychu Ysgol Craig yr Wylfa – Chelsea sydd yn 7 a Connor sydd yn 4.

**Bedydd a Cristingl**
Cynhaliwyd gwasanaeth bedydd a Cristingl ar y cyd yn Eglwys St. Matthew yn cael ei arwain gan y Parchg Ganon Stuart Bell, yn cael ei gynorthwyo gan blant yr Ysgol Sul. Y babi fedyddiwyd oedd Flynn, brawd Matilda sydd yn aelod o'r Ysgol Sul. Yna darllenwyd gweddïau gan y plant a phennod o'r Beibl yn sôn am ddilyn yr Iesu – fe geisiodd y plant ddilyn olion traed mawr papur i fyny yr ystlys y tu ôl i'r ficer. Goleuwyd y Cristinglau a dangosodd y plant nhw i'r gynulleidfa. Yn ffodus ni chafwyd unrhyw ddamweiniau! Roedd yn wasanaeth hyfryd hapus o ddathlu'r Iesu – goleuni'r byd; yn dilyn y gwasanaeth cafwyd lluniaeth yng nghefn yr Eglwys. Diolch i Amanda a Megan am bythefnos o gymorth i wneud y Christinglau – i ddechrau gyda'r Ysgol Sul a rhai ychwanegol wnaed yn y cartrefi. Cynhelir gwasanaethau wythnosol yn Eglwys y Borth am 11.15 ar fore Sul gydag Ysgol Sul yn nen yr Eglwys yr un pryd, ond dim ond yn ystod y tymor. Gall y Wardeiniaid Margaret 871056 a Susan 871355 gynorthwyo gyda unrhyw wybodaeth ychwanegol.





# Adolygiad




**Alan Phillip** *The Cinemas of West Wales*
**Y Lolfa £6.99 128t.**
Dyma lyfr y gallwch ei ddarllen o glawr i glawr o fewn yr awr neu ar y llaw arall y gallwch bori ynddo dros gyfnod hir. Ychydig dros gant o dudalennau sydd yn y llyfr a dros eu hanner yn cynnwys lluniau. Ac eto, llwyddodd yr awdur i lenwi'r tudalennau prin gyda channoedd o ffeithiau difyr am ddatblygiad adloniant fu mor flaenllaw ym mywyd y werin yn ystod hanner cyntaf yr ugeinfed ganrif. Adloniant y bu bron i deledu ei ladd yn ystod ail hanner y ganrif ond sydd wedi cael adfywiad diweddar yn sgil y 'multiplex' a'r sinema 'boutique.'

Mae ffrwyth ymchwil aruthrol yma ac mae'r awdur Alan Phillips yn crynhoi hanes dros gant o sinemau, neu neuaddau a ddefnyddiwyd fel sinema, o Ddolgellau yn y gogledd i Bontarddulais yn y de. Mae'n cynnwys gwybodaeth am hanes adeiladu a rhedeg y sinemau hynny o'r un cyntaf yn 1890 a adeiladwyd yn Aberystwyth i'r un mwyaf diweddar a agorwyd y llynedd yn y Borth. Ceir gwybodaeth am gymeriadau diddorol megis William Haggar ac Arthur Cheetham a ddechreuodd ddangos ffilmiau mewn ffeiriau, am natur yr awditoria, maint y sgriniau a'r math o ddaflunydd. Cawn wybod am beth ddigwyddodd i'r sinemau hynny a ddiflanodd a chawn wybodaeth am sefyllfa'r sinema yn y gorllewin erbyn heddiw. Llwyddodd Alan Phillips i grynhoi agwedd ar hanes bywyd cymdeithasol yr ardal yn ystod y can mlynedd diwethaf a gwneud hynny mewn dull difyr dros ben.

Bu'r awdur yn gweithio fel taflunwr ac felly mae ganddo wybodaeth a diddordeb yn arbennig yn yr agwedd dechnegol. Y taflunydd mwyaf poblogaidd yn ystod y ganrif ddiwethaf mae'n debyg oedd y taflunydd Kalee 11 (gallwch weld un yn Amgueddfa Ceredigion) a'r datblygiadau mwyaf cyffrous oedd ychwanegu sain yn y tridegau a cinemascope yn y pumdegau. Erbyn heddiw mae sinemau modern fel Libanus 1877 a sinema Canolfan y Celfyddydau yn defnyddio taflunydd digidol sy'n eu galluogi i ddangos darllediadau byw o theatrau eraill yn ogystal a'r ffilmiau diweddaraf.

Mae bron i gant a hanner o luniau du a gwyn yn y gyfrol sy'n gofnod hanesyddol diddorol yn eu hunain. Buasai lluniau lliw wedi bod yn well wrth gwrs ond buasai hynny wedi golygu costau mwy hefyd ac mae'r llyfr yn fargen am £6.99
**Gareth William Jones**



# Colofn BEN LAKE AS

**Amddiffyn gwasanaethau hanfodol yn ein cymunedau gwledig**
Roedd cyhoeddiad NatWest ym mis Rhagfyr am eu bwriad i gau eu canghennau yn Llanbedr Pont Steffan ac Aberteifi yn 2018 yn ergyd galed i'r ddwy dref a'r ardaloedd cyfagos.

Bydd yr ymgyrch i amddiffyn gwasanaethau bancio yn ein cymunedau yn flaenoriaeth i mi yn San Steffan dros yr wythnosau a'r misoedd nesaf.

Yn gynnar yn y flwyddyn newydd, cefais gyfle i herio penderfyniad NatWest mewn cyfarfod un-i-un gyda chyfarwyddwr y banc yn San Steffan. Bu i mi rannu pryderon a godwyd gan fy etholwyr gan ddatgan fy siom o weld y banc yn cefnu ar y cymunedau a'r cwsmeriaid hynny sydd wedi bod yn ffyddlon iddynt ers degawdau. Llai na degawd ar ôl i drethdalwyr achub eu crwyn pan oedd yr argyfwng ariannol ar ei gwaethaf, maent nawr yn bygwth tanseilio sylfaen ariannol yr economi leol gyfan.

Mewn cydweithrediad ag Elin Jones AC ac Undeb Amaethwyr Ceredigion, cynhaliwyd dau gyfarfod cyhoeddus yn Llanbedr Pont Steffan ac Aberteifi yn ddiweddar er mwyn ymgynghori a gwrando ar farn pobl leol am benderfyniad NatWest. Bu'r ddau gyfarfod yn gyfle i drafod syniadau ymarferol ac arloesol ar gyfer gwasanaethau bancio'r dyfodol, gan gynnwys y posibilrwydd o ail-leoli banciau'r stryd fawr mewn un hwb bancio canolog ymhob tref.

Mewn dadl ddiweddar ar wasanaethau bancio yn Westminster Hall, galwais ar Lywodraeth Prydain i drefnu uwchgynhadledd ar fyrder, gan ddod â phob un o'r prif fanciau ynghyd i drafod eu cynlluniau hirdymor ar gyfer eu rhwydwaith o ganghennau.

Ers y cyhoeddiad, mae nifer fawr o etholwyr, busnesau a chymdeithasau wedi cysylltu â mi i ddatgan eu siom, ac i fynegi eu pryderon am y dyfodol. Dyma enghraifft arall, eto fyth, o gymunedau gwledig yn cael eu hamddifadu o wasanaethau hanfodol. Dyma ofyn, felly, a yw hi'n bryd i ni drafod pa wasanaethau fedrwn ni ddim ymdopi hebddyn nhw yn ein trefi a'n pentrefi?

# Strafagansa Pres





Ddydd Sadwrn y 27ain o Ionawr, cynhaliwyd Strafagansa Pres gan Seindorf Arian Aberystwyth yn Ysgol Pen-glais. Yn ogystal â gweithdai a chyngerdd gwych gyda Band Leyland fin nos, cynhaliwyd cystadleuaeth ar gyfer unawdwyr ac ensembles yn ystod y dydd. Llongyfarchiadau i Betsan a Gronw Downes, Glanrafon, Penrhyn-coch, ar eu llwyddiant ar eu trombôns: daeth Betsan i'r brig yn y gystadleuaeth i unawdwyr dan 11 oed, gyda Gronw'n ail dan 15 oed. Dyma nhw gyda John Doyle, beirniad y gystadleuaeth, ac aelod ac unawdydd gyda Band Leyland. Diolch John a gweddill aelodau Band Leyland am fod yn gymaint o ysbrydoliaeth i'r cerddorion ifanc.
Buddugwyr eraill o ardal y Tincer oedd Osian King (Ysgol Rhydypennau) ddaeth yn drydydd yn adran Betsan, ac Erin Hassan, Y Borth (Ysgol Pen-glais) ddaeth yn fuddugol yn yr adran hŷn.

# PENRHYN-COCH

**Suliau Horeb**
*Chwefror*
18 2.30 Beti Griffiths
25 10.30 Y Parchg Adrian Williams
*Mawrth*
4 2.30 Y Parchg Judith Morris Oedfa gymun
11 10.30 Y Parchg Judith Morris Oedfa deuluol
18 2.30 Y Parchg Wyn Morris
25 10.30 Y Parchg John Roberts

**Cinio Cymunedol Penrhyn-coch**
Bydd y Clwb yn cyfarfod yn Neuadd yr Eglwys dyddiau Mercher 28 Chwefror; 14 a 28 Mawrth. Cysylltwch â Job McGauley 820 963 am fwy o fanylion neu i fwcio eich cinio.

**Cymdeithas y Penrhyn**
Mae Talat Chaudhri, siaradwr gwadd y Gymdeithas nos Fercher, 17 Ionawr, wedi byw yn Aberystwyth er 1998 pan ddaeth yma i wneud doethuriaeth ar sut y datblygodd y Gymraeg, y Llydaweg a'r Gernyweg o'r Frythoneg. Mae'n dod o Essex yn wreiddiol ac ar ôl graddio mewn Hanes yn Rhydychen soniodd fel y bu iddo ddod yn rhan o ymgyrch i adfywio'r iaith Gernyweg ac mai dyna a wnaeth iddo ddechrau dysgu'r Gymraeg.

Cawsom dipyn o'i gefndir teuluol, gyda'i dad yn dod o'r Punjab a'i fam yn Saesnes, ac am ymweliadau a chysylltiadau teuluol â Phacistan a'r tensiynau sydd yn y rhanbarth.

Mae wedi ymgartrefu yn Aberystwyth, yn weithgar yn y gymuned ac yn aelod o Gyngor Tref Aberystwyth. Fe yw'r dirprwy faer ar hyn o bryd. Cawsom noson ddiddorol iawn yn ei gwmni.

**Dyweddiad**
Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Charlotte Griffiths (Maesyfelin gynt) ar ei dyweddiad a Adam Kelly ar Ionawr 15.

**Pen blwydd hapus**
Pen blwydd arbennig hapus i Sian Pen-banc a ddathlodd ei phen blwydd yn 50 ddiwedd Ionawr.

**Yn ôl i'r 1960au**
Ar brynhawn Sadwrn gwlypaf y flwyddyn hyd yn hyn (y 27ain Ionawr), cafwyd digwyddiad bywoliaeth eglwysig, yn neuadd eglwys Llanbadarn Fawr. Sosial oedd hwn rhwng y pedair eglwys, sef Llanbadarn Fawr, Capel Bangor, Elerch a Phenrhyn-coch.

Thema'r prynhawn oedd y 60au. 'Roedd y Neuadd wedi ei haddurno gyda phopeth i



gyd-fynd â'r degawd gan gynnwys baneri lliwgar a phosteri seicedelig. Gwelwyd arddangosfa o'r cyfnod mewn un gornel o'r Neuadd ac mewn cornel arall bwrdd llawn ffeithiau am y 60au.

'Roedd digon o amser i gymdeithasu yn ogystal â chymryd rhan mewn gwahanol weithgareddau. I gychwyn, dyfalu enwau actorion enwog y cyfnod a dyfalu wynebau benywaidd y 60au. Tamed i aros pryd oedd hyn, a sôn am fwyd cawsom luniaeth o 'fish fingers'a 'spaghetti hoops' (a gyflwynwyd i'r farchnad ym 1965) ac i ddilyn 'Arctic Roll' ac 'Angel Delight'(a gyflwynwyd i'r farchnad ym 1967). Ac i yfed, beth gwell na photeli o 'Sprite' (1961) a choffi Maxwell House (1963). I ddilyn y bwyd cafwyd cwis arall yn seiliedig ar wybodaeth gyffredinol o'r 60au cyn symud ymlaen i gystadleuaeth y toes lliwgar. Y syniad oedd creu eitem i gydfynd â themâu oedd ar bob bwrdd megis, bwrdd 'Dr Who', 'Elvis', 'Dyn ar y lleuad', 'Fred' y dyn blawd a 'Batman'.

Cyfle wedyn i ganu caneuon poblogaidd o'r cyfnod dan arweiniad dwy o aelodau'r grŵp yr 'Hornets', (sydd hefyd yn aelodau o eglwys Llanbadarn). Mi wnaeth pawb ymuno yn yr hwyl. Cyn diwedd y prynhawn, 'roedd angen beirniadu'r wisg ffansi orau, a'r enillwyr oedd Andrew a Heather Loat (oedd wedi gwisgo fel hipis) ac Edwina Davies (oedd wedi gwisgo fel 'Fred' y dyn blawd).

I gloi'r prynhawn, chwaraewyd gêm pasio'r parsel, tipyn o sbort a digon o lanast wrth rwygo'r papur. Y wobr ddigri oedd pecyn o 'Angel Delight' a chwisg. Diolch i bawb o'r pedair eglwys a gyfrannodd at y raffl hael ac am wneud y digwyddiad yn un llwyddiannus.

**Urdd y Gwragedd, St Ioan**
Bu Aneurin Roberts o Aberaeron yn siarad â'r gwragedd am waith Ambiwlans Awyr Cymru. Soniodd am y tair awyren sy'n gweithio yng Nghymru, sef Dafen yn Llanelli, y Trallwm a Chaernarfon, ac mae angen codi £6 miliwn y flwyddyn i gadw'r awyrennau yn yr awyr. Erbyn hyn mae'r bedwaredd awyren ar gael ar gyfer plant yn unig sydd wedi ei lleoli yng Nghaerdydd. Mae"n costio yn agos i £1,500 bob tro mae un awyren yn cael ei galw allan ac yn honi medru cyrraedd unrhyw fan yng Nghymru mewn ugain munud sydd yn bwysig i wneud yn siwr bod y cleifion yn cael triniaeth o fewn yr awr aur. Noson ddiddorol iawn.

**Enwebu am wobr**
Llongyfarchiadau i Caleb Spencer ar gael ei roi ar y rhestr fer am Ohebydd Arbenigol y flwyddyn yng Ngwobrau Cyfryngau Cymru 2018. Cyhoeddir yr enillwyr mewn seremoni a lywyddir gan Huw Edwards mewn gwesty yng Nghaerdydd ar 23 Mawrth.

**Brysiwch wella**
Dymunwn yn dda i Aeron Edwards, gynt o Benrhyn-coch, sydd yn derbyn triniaeth yn Ysbyty'r Waun, Caerdydd.

**PATRASA**
Mewn pwyllgor diweddar o Glwb Busnes Aberystwyth fe dderbyniodd PATRASA ( Pwyllgor Parc Penrhyn-coch) siec o £1,000 tuag at gynnal Parti yn y Parc eleni, yn bennaf i logi pabell fel nad oes rhaid gohirio oherwydd tywydd gwael. Nid yw wedi ei chynnal ers dwy flynedd a teimlad y pwyllgor o siarad â rhai o aelodau y gymuned oedd fod hwn yn ddigwyddiad pwysig yn nghalendr y pentref, yn bennaf





Criw fu yn chwarae bingo yn Neuadd yr Eglwys cyn y Nadolig

i godi arian i'r Parc ac hefyd i gael y Gymuned at ei gilydd.  Mae dyddiad Parti yn y Parc eto i'w benderfynu ond gwyliwch ein tudalen "Facebook" a'r *Tincer* am ddiweddariadau yn fuan.

Mae PATRASA yn diolch yn fawr iawn i'r Clwb Busnes am eu haelioni. Bydd elw o'r digwyddiad yn cael eu rhoi tuag at cael offer newydd i wella'r lle chwarae.

Mae Clwb Busnes Aberystwyth wedi cefnogi dros 50 o gymdeithasau gyda rhoddion o dros £125,000 dros y blynyddoedd. Gall cefnogaeth fod am arian bach neu fawr. Os am wneud cais neu dod yn aelod cysylltwch â'r Clwb Busnes ar www.aberystwythbusinessclub.co.uk.

Yn y llun gwelir: Mearina James a Rhiannon Rees, o'r Clwb Busnes, Clare Larke a Marion Thompson o PATRASA ac Eddy Webb, eto o'r Clwb Busnes.

**Cydymdeimlad**

Cydymdeinlwn â Janice Morris, Glan Ceulan, ar farwolaeth modryb.

**Merched y Wawr Penrhyn-coch**

Ar Ionawr 11eg fe aethom fel cangen i'r Maes, Capel Bangor i fwynhau ein cinio blynyddol. Ein gwraig wadd oedd Margaret Jones, Tregaron. Fe'n diddorodd ni drwy gynnal noson o chwarae bingo. Cafwyd llawer o hwyl yn ei chwmni, ac yr oedd pawb wedi mwynhau yn fawr iawn. Yr oedd Sharon Jones wedi trefnu'r noson ac fe ddiolchwyd iddi a Margaret Jones, a phawb yn y Maes am y bwyd blasus, ac i bawb arall gan Mairwen yn ei dull arferol. Aeth pawb adref wedi cael llond bol a hwyl dros ben.

**Cofion**

Gyrrwn ein cofion at Connie Evans, Gwawrfryn, sydd yn treulio ychydig amser yn Pennal View, Blaenpennal.

**Priodas aur**

Dymuniadau gorau i Dai Rees ac Eirian Morgan, 9 Maes Seilo a ddathlodd eu priodas aur ar Chwefror 10fed.

**Trigolion newydd**

Croeso i Ger-y-cwm i rai sydd wedi symud yn ddiweddar – Raymonda a Mike Roberts o Bow Street; Steff, Laura ac Osian o Gapel Bangor a Gwenllian Mair a Steven o Gapel Seion.

**Eisteddfod Gadeiriol Penrhyn-coch**

Os ydych am gyfrannu at Eisteddfod Gadeiriol Penrhyn-coch gellir gwneud hynny d/o aelod o'r pwyllgor neu mae ffurflenni archeb banc ar gael gan y Trysoryddion – Robert Dobson, Cae Mawr neu Bethan Davies, Glan Ceulan.

**Bydd angen cymorth ar y drws eleni ar y dydd Sadwrn – os oes rhywun a diddordeb i gynorthwyo cysylltwch â'r Ysgrifennydd os gwelwch yn dda.**

**Pel-droed Penrhyn-coch**

**Canlyniadau Tim 1af**

13/01 Penrhyn-coch 0 Tre y Fflint 3
20/1 Airbus Brychtyn 1 Penrhyn-coch 0
03/02 Y Rhyl 2 Penrhyn-coch 2

**Menywod**

14/01 Llanbed 4 Penrhyn-coch 3
04/02 Penrhyn-coch 2 Llanbed 0



Pob hwyl i dim Elen yn Fferm Ffactor Clcbs. Yn ymuno a'i thîm mae'r cyflwynydd radio a theledu Alun Williams a'r cyn chwaraewr rygbi rhyngwladol dros Gymru, Nathan Brew. Meddai Nathan, "Fi ac Alun am roi dipyn o ffydd yng ngallu Elen ar y fferm achos 'so clem 'da'r un ohonom ni!"

**Marwolaeth**

Ar 15 Ionawr bu farw Geraint John – gynt o Ger-y-llan – yn Ysbyty Glangwili.


Addysgwyd Geraint yn Ysgol Ramadeg y Bechgyn, Tregŵyr lle roedd y cyfansoddwr Alun Hoddinott yn cydoesil ymunodd y ddau â Cherddorfa Genedlaethol Ieuenctid Cymru. Aeth y chwaraewr cello ymlaen i Goleg Prifysgol De Cymru, Caerdydd lle astudiodd gyda George Isaac.

Yn ystod ei wasanaeth milwrol roedd yn glarinetydd gyda band canolog yr RAF a gorymdeithiodd yng Nghoroniad y Frenhines. Aeth ymlaen i astudio yn y Ganolfan Cello Rhyngwladol yn Llundain gan gymryd dosbarthiadau meistr gyda'r athro a'r cellydd enwog Maurice Eisenberg.

Tra'n gweithio fel athro ysgol yng Nghanolbarth Lloegr ehangodd ei dalentau fel cellydd continuo gyda Cymdeithas Bach Nottingham a'r Midlands Sinfonia.

Dychwelodd i Gymru ym 1963 pan apwyntiwyd ef yn cellydd yn ensemble siambr Coleg Prifysgol Aberystwyth. Roedd yn un o'r rhai sefydlodd Gymdeithas Gorawl Aberystwyth ym 1970 ac ef fu'n eu harwain am flynyddoedd.

Roedd cerddoriaeth siambr yn bleser parhaol iddo. Fe'i disgrifwyd fel "cerddor



cymdeithasol". Parhaodd i chwarae hyd at ddwy flynedd cyn ei farwolaeth yng Nghartref Gofal Tŷ Blaenos yn Llanymddyfri.

Canu corawl oedd ei gariad mawr ac yn un aeth ag ef ledled Cymru; ef oedd arweinydd Côr Eisteddfod Genedlaethol Machynlleth ym 1981.

Bu'n byw ym Mhenrhyn-coch ers tua 1984-85. cyn symud i Lanymddyfri. Cydymdeimlwn â'i fab- Gareth, sydd yn chwaraewr cello yn yr Alban,ac â Susan a Kevin ym Morgannwg.

# BOW STREET



Plant Cylch Meithrin Rhydypennau yn mwynhau yn yr eira

**Capel y Garn**
**Gweler hefyd www.capelygarn.org/**
**10 a 5**

*Chwefror*
18 Bugail
25 J. Emrys Jones (Bore)

*Mawrth*
4 Lyndon Lloyd (Bore)
11 Rhidian Griffiths
18 Bugail
25 Beti Griffiths Bugail

**Noddfa**

*Mawrth*
4 Garn 10.00
11 10.00 Gweinidog – Cymundeb
18 10.00 Cyfeillach
25 2.00 Gweinidog
30 10.00 Oedfa undebol Gwener y Groglith yn Methel, Tal-y-bont – Gweinidog

**Merched y Wawr Rhydypennau**

Ein gwraig wadd ar nos Lun Ionawr 8fed oedd Dana Edwards ,ymchwilydd teledu ac awdures. "Darnau ohonof fi" oedd ei thema. Dywedodd – gyda help gwrthrychau arbennig – sut y dechreuodd fynd ati i ysgrifennu. Mae newydd gyhoeddi ei hail lyfr Cymraeg sef *Am Newid* (Y Lolfa). Noson ddifyr iawn. Rhoddwyd y diolchiadau gan Carys Davies a chafwyd paned wedi ei pharatoi gan Ann Jones a Margaret Roberts. Enillydd y raffl oedd Janet Roberts.

**Cofion**

Gyrrwn ein cofion at Mrs Eunice Fleming, Tregerddan, sydd – ar ôl treulio amser yn yr ysbyty – yng nghartref Cysgod y Coed, Llanilar.

**Capel y Garn**

*Y Gymdeithas*

'Digon o Ryfeddod' oedd testun Dewi G. Hughes yng nghyfarfod y Gymdeithas nos Wener, 19 Ionawr. Gan ddechrau â'r cerflun trawiadol o Grist yr Eiriolwr uwchben Rio de Janeiro, aeth Dewi â ni ar daith drwy rai o wledydd cyfandir De America – o Frasil heibio i ddyfroedd byrlymus rhaeadrau Iguazú i wledydd Paraguay ac Uruguay, lle cyfarfu â merch arbennig oedd yn siarad Cymraeg. Yna, troi tua'r Wladfa i fwynhau golygfeydd eang y diffeithdir yn ogystal â Cwm Hyfryd, a chael croeso twymgalon gan ddisgynyddion y gwladychwyr Cymreig yno. Diolchwyd yn gynnes i Dewi am noson ddifyr iawn gan y Cadeirydd, y Parch Elwyn Pryse.

**Gwreiddiau**

Mae'r grŵp Gwreiddiau yn cyfarfod yn rheolaidd yn y festri am 10.15 o'r gloch ar fore dydd Iau. Ar ôl paned a sgwrs, ceir cyfle, dan arweiniad y Gweinidog, y Parch Ddr Watcyn James, i geisio dod i adnabod 'gwreiddiau' ein ffydd yn well, gan rannu profiad a holi ambell gwestiwn sy'n aml yn arwain at drafodaeth fywiog. Croeso cynnes i bawb.

**Genedigaeth**

Llongyfarchiadau i Lleucu Haf a Russell Foley, ar enedigaeth eu merch Eleanor Lleucu, ar Chwefror 2il. Wyres i Haf a Joe a gorwyres i Felicity Roberts, Bryn Castell.

**Marwolaeth**

Cydymdeimlwn â Sheila a Mair a'u teuluoedd ar farwolaeth Phyllis Richards, 49 Tregerddan fu farw ar Ionawr 6. Cynhaliwyd yr angladd yn Amlosgfa Aberystwyth a derbyniwyd rhoddion er cof tuag at Ymchwil Cancr a Chyfeillion Tregerddan d/o Gwyn Evans.

**Diolch**

Dymuna Emyr a Mair, Cân y Gwynt, Maes-y-garn, ddiolch yn fawr iawn i berthnasau, ffrindiau a chymdogion am y cardiau, anrhegion a'r galwadau ffôn a dderbyniasant ar ddathliad eu Priodas Aur yn ddiweddar.

Dymuna Mair Lewis, 40 Maes Ceiro, ddiolch o galon i bawb a gofiodd am y pen blwydd arbennig y bu'n ei ddathlu yn ddiweddar. A barnu oddi wrth yr holl gyfachion a dderbyniwyd mae'n amlwg bod cael rhywun i roi hysbyseb yn Y Tincer ar eich rhan yn gweithio ar ei ganfed!





Rhai o'r grŵp Gwreiddiau yn cyfarfod yn y Garn.

# Cyngor Cymuned Tirymynach

Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y flwyddyn yn Neuadd Rhydypennau ar nos Iau 25 o Ionawr o dan lywyddiaeth y Cyng. Rowland Rees. Hon oedd noson penderfynu ar y praesept am y flwyddyn 2018-19. Derbyniwyd gwybodaeth fod sylfaen treth y Cyngor wedi disgyn o £881.10 y llynedd i £811.04 am eleni. Ond penderfynwyd nad oedd angen i Dirymynach ychwanegu dim at praesept llynedd, gan aros ar £17,000 sef £20.96 am annedd Band D. Bydd hyn yn siŵr i'w groesawu gan ein trethdalwyr, gan fod nifer yn cael hi'n anodd cael dau ben llinyn ynghyd y dyddiau hyn.

Derbyniwyd taflen gan y Clerc yn egluro ein sefyllfa ariannol yn cynnwys manylion am gydnabyddiaeth a threuliau'r Clerc, a rhai o'r costau fydd yn rhaid eu hwynebu yn fuan. Ar orchymyn yr Archwilwyr Grant Thornton cyflwynwyd rhaglen Gyllideb am 2018-2019 i'n sylw gan y Clerc, yn dangos cyfanswm o £17,500.

Aed ymlaen i ddosbarthu rhoddion ariannol i geisiadau gan elusennau lleol, fel a ganlyn: Ffrindiau Cartref Tregerddan £300, Y Tincer £400, Mynwent Capel y Garn £300, Mynwent Noddfa £200, Clwb Meithrin Rhydypennau £250, Ysgol Rhydypennau £100, Ambiwlans Awyr Cymru £200, Noson Tân Gwyllt £350, Neuadd Rhydypennau £1,000, Sioe Arddwriaethol Rhydypennau £200, CAB £200, Clwb Ffermwyr Ieuanc Tal-y-bont £200, Samariaid £100. Datganwyd eu diddordeb gan Gynghorwyr oedd yn aelodau o rai o'r mudiadau uchod. Atgoffir y mudiadau fod angen copi o'u cyfri ariannol gyda phob cais yn y dyfodol.

Materion yn codi o gofnodion blaenorol: Dim gair wedi dod oddi wrth Grant Thornton parthed yr ymweliad â hwy yn Abertawe. Dim gwybodaeth am goliau addas yng nghae chwarae Tregerddan. Adroddwyd bod y llidiart wedi ei osod i gae chwarae Bryncastell. Mae adran Ystadau y Brifysgol wedi cael rhybudd am y dŵr sy'n gorlifo o'r cae ger y fynedfa i Gartref Tregerddan.

Adroddiad y Cyng. Paul Hinge: Dywedodd fod problem ar rai o doeon Ysgol Rhydypennau, a bod ymchwiliad brys mewn lle. Bydd PACT yn cyfarfod ar 28 Chwefror yn Neuadd Rhydypennau am 7pm. Pwysleisiodd fod angen i drigolion Llandre hefyd bresenoli'r cyfarfod. Tynnodd sylw at y llifogydd lleol ar y Sul cynt, a diolchodd i'r gwirfoddolwyr hynny a fu'n cynorthwyo i atal y dŵr a chlirio y rwbel yn y tai a gafodd ddifrod. Pwysleisiodd fod y cwteri a'r picrata wedi eu glanhau cyn y Nadolig, ond nid oedd posibl atal y coedydd ac ati a ysgubwyd i lawr gan y dilyw anarferol. Dangosodd gopi diweddaraf o gynllun arfaethedig o Orsaf Bow Street, cynllun Llywodraeth Cymru, gyda llaw. Bydd Ymgynghoriad Cyhoeddus yn y dyfodol agos, ac yna cyflwynir y cynllun i Bwyllgor Cynllunio Ceredigion. Os bydd rhwyddineb i'r prosiect gobeithir agor yr orsaf yn y flwyddyn 2020.

Mae disgwyl o hyd i'r sietyn o dan Bryncastell i gael ei thorri, ac mae'r ffordd wrth Nantsiriol wedi torri'n arw. Cymerwyd olion bysedd y sawl a dorrodd i mewn i festri Capel Noddfa gan yr Heddlu a'u gosod ar eu Basdata.

Dyddiad y cyfarfod nesaf fydd 22 Chwefror yn Neuadd Rhydypennau.


Porchell

**Eich cigydd lleol**

**PEN-Y-GARN**
**FFON 828 447**
**LLUN: 9-5.30**
**MAW-SAD 8.00-5.30**

*Gwerthir ein cynnyrch mewn rhai siopau lleol*

**D J Evans Cyfarwyddwyr Angladdau**

Busnes teuluol gyda dros 60 mlynedd o brofiad

Kairali, Penrhyn-coch SY23 3EQ

Gwasanaeth personol, urddasol gyda chydymdeimlad
Gwasanaeth Pedair Awr ar Hugain
evansfunerals@talk21.com

**Aberystwyth 01970 615328**
**Penrhyn-coch 01970 820249**
**Machynlleth 01654 700006**

*Trefnwyr Angladdau*

**C T Evans**

Gwasanaeth Angladdol Teuluol Cyflawn, wedi ei arwain yn bersonol gydag urddas. Capel Gorffwys Preifat, Gwasanaeth Dydd a Nos.


**01970 820013**
*gwyn@ct-evans.co.uk*


**Brongenau, Llandre, Aberystwyth SY24 5BS**


**GWASANAETH CYFIEITHU**

**Linda Griffiths**

Maesmeurig
Pen-bont
Rhydybeddau
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3EZ



**01970 828454**
linda.griffiths01@btinternet.com

**Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr**

**CLERC I'R CYNGOR**

Gwahoddir ceisiadau am y swydd rhan-amser (tua 34 awr y mis) uchod i ddechrau cyn gynted â phosib.

Am ragor o fanylion, a swydd-ddisgrifiad, cysylltwch â
Lowri Jones: 07886 367027 | cyngorcam@gmail.com
**Dyddiad Cau: 16 Mawrth 2018**

Mae'r gallu i gyfathrebu yn y Gymraeg a'r Saesneg yn hanfodol i'r swydd yma.

# ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL

**Canu dramor**

Mae Carol Marshall, Ger y Gronfa, yn aelod o gôr Tenovus Aberystwyth a cyn y Nadolig aeth allan ar fyr rybudd i Vienna i ganu ym Mhalas Hoffburg i ddiddori cynadleddwyr y Gilead Sciences Ewrop. Byr fu eu harhosiad gan iddynt gyflawni y daith i gyd o fewn deugain awr. Mwynhaodd Carol a gweddill y côr y profiad yn fawr iawn.

**Aneurin Morgan**

Ar Ragfyr 30ain,yn dawel yn ysbyty Bron-glais, bu farw Aneurin Morgan, Bungalow, Cwmrheidol yn 86 oed. Gŵr hoffus Gwen, tad Meinir a Dwynwen, tad yng nghyfraith Geraint a Richard a dada bach Beca a Tomi. Dyma grynodeb o deyrnged Meinir ar ran y teulu ar ddydd ei angladd.

Ganwyd Aneurin ym Mrodawel, Ystumtuen ar Ebrill 10fed 1931 yn fab i Haulfryn ac Olwen Morgan a brawd i Teleri. Roedd yn un o fois y bryniau ac yn ddyn ei filltir sgwâr - yn berson a oedd yn caru ei gynefin ac yn hapus ei fyd yn crwydro o amgylch Ystumtuen, Ponterwyd, Pontarfynach ac wrth gwrs Cwmrheidol naill ai gyda'i wn neu ei wialen bysgota. Roedd yn hapus gyda phethau syml bywyd, yn hoff o dynnu coes a chael ambell i jôc. Cafodd fagwraeth gariadus ar aelwyd gysurus ac roedd hyn yn cael ei adlewyrchu yn y modd roedd Aneurin yn edrych ar fywyd a'i deulu. Bu'n briod â Gwen, a gyfarfu mewn sosial yn Ystumtuen ar ddechrau'r 50au, am dros 62 o flynyddoedd ac roedd yn meddwl y byd o Meinir a Dwynwen a Beca a Tomi, ei ŵyr a'i wyres.

Mynychodd ysgol gynradd Ystumtuen cyn symud ymlaen i Ysgol Ramadeg Ardwyn yn 1942. Rhywbryd yn ystod ei ddyddiau cynnar yno dechreuwyd ei alw'n Tyff. Gan bwy, nid oes neb yn gwybod.



Nid oes sail gadarn pam ei fod yn cael ei alw'r enw hwn, ond fe ddaeth yna ambell fersiwn go wahanol i law yn ddiweddar. Dywedodd rhywun mai oherwydd ei fod byth yn sâl, byth yn colli ysgol a'i fod mor iach â' gneuen – mi roedd yn redwr trawsgwlad penigamp; efallai o'r tarddiad "Tough Cookie" sef personoliaeth gref a phenderfynol; efallai am ei fod yn hoff o sefyll fyny am ei hun a'i fod byth yn cymryd nonsens gan fwlis yr ysgol. Nid oedd diddordeb ganddo fynd ymhellach gyda'i addysg, er bod sawl athro wedi ei gynghori i wneud hynny. Yr unig beth oedd am wneud oedd dreifio lori Hughie'r Glô.

Pan yn Ardwyn fe gyfarfu ag Eilir Morris, Capel Bangor, ac fe ddaeth y ddau yn gyfeillion mynwesol - cyfeillgarwch a barodd 75 mlynedd. Mewn gwirionedd, mae antics y ddau yma yn haeddu llyfr – meddyliwch am ddau grwt yn gwneud bomiau cartref ac yn chwarae o gwmpas gyda gynau. Mae'n debyg iddynt un diwrnod yn ystod y rhyfel "fenthyg" car tad Eilir a'i yrru i Aberystwyth gan weiddi dros y lle "The Germans are coming". Mae'n syndod na chafodd y ddau eu harestio.

Yn 1949 fe ymunodd â'r Llu Awyr er mwyn gwneud ei Wasanaeth Cenedlaethol a threuliodd ddwy flynedd hapus yn Credenhill, West Kirby a Sain Tathan. Ar ôl cwblhau ei Wasanaeth Cenedlaethol, dychwelodd adre i helpu ei dad a'i ewyrth Morgan Meredith yn eu busnes adeiladu. Bu hefyd yn helpu Hughie Griffiths i gario glo. Roedd eisoes wedi magu diddordeb mewn awyrennau yn ystod ei gyfnod yn y Llu Awyr ac ar ddiwedd y 40au fe ymunodd â'r Royal Observer Corps ym Mhonterwyd lle bu'n aelod am ymron i hanner can mlynedd.

Yn Ionawr 1953 ymunodd Aneurin â'r GPO a threuliodd 8 mlynedd yn gweithio fel linesman yn darparu llinellau ffôn i ardaloedd cefn gwlad Ceredigion. Roedd dechrau'r 60au yn amser cyffrous a llawn bwrlwm yng Nghwmrheidol pan gafodd y pwerdy a'r cynllun dŵr eu hadeiladu.

Yn 1961 cafodd Aneurin swydd gyda'r CEGB a dyna lle bu tan ei ymddeoliad yn 1993. Roedd ganddo ddiddordebau eang ac amrywiol. Er pan yn ifanc ac i fyny tan yn ddiweddar roedd yn hoff o bysgota a saethu. Mynd allan i "ffowla" neu "hela fowcs" oedd y term a ddefnyddia i ddisgrifio mynd allan gyda'i wn a dal ambell gwningen i swper. Fel cymaint o'i gyfoedion a fagwyd cyn dyddiau'r teledu, roedd yn ddarllenydd brwd. Fe ddarllenodd y Beibl o glawr i glawr ddwywaith ynghyd â'r Koran. Roedd ganddo hefyd ddiddordeb mawr mewn ffilmiau.

Roedd yn hoff o drafod gwleidyddiaeth, materion cyfoes a chrefydd ac yn aml ar brynhawn dydd Sul gwelwyd ef ac Eilir ar aelwyd y Bungalow yn trafod materion y dydd. "Summit Meetings" oedd Aneurin

# Ennill gwobr

Enillodd Meleri Morgan un o wobrau Myfyrwyr y Gymdeithas Deledu Frenhinol yng Nghymru mewn seremoni yng Nghaerdydd yn ddiweddar. Ysgrifenodd Meleri y ffilm "Dwy Chwaer a Brawd" fel rhan o'i chwrs pan oedd ar ei blwyddyn olaf yn y Brifysgol yn Aberystwyth.Mae yn bortread o fywyd ar fferm deuluol a chafodd ei henwebu yn y categori ffeithiol. Bydd y ffilm yn mynd ymlaen yn nawr i gystadlu yn y gystadleuaeth drwy Brydain ym mis Mehefin. Mae Meleri yn wyres i'r diweddar Dan ac Eirlys Davies, Caehaidd – merch Delyth a Geraint Morgan, Bwlch-llan. Llongyfarchiadau mawr i ti a dymuniadau gorau yn y gystadleuaeth ym mis Mehefin.



yn eu galw. Byddai yn paratoi agenda ar gyfer y pynciau llosg i'w trafod cyn bwrw ymlaen i drafod digwyddiadau pob dydd nad oedd mor bwysig.

Yn 1946 cafodd ddyddiadur yn anrheg Nadolig gan ei gefnither, Mona, a bu wrthi am dros 70 mlynedd yn cofnodi digwyddiadau'r dydd. Uchafbwynt diwedd pob diwrnod oedd ysgrifennu cofnod yn y dyddiadur. Bob amser yn defnyddio pen ac inc a phapur blotio a phob amser yn dechrau gyda'r tywydd. Hwyl yw darllen am ei ddyddiau ysgol – ambell i ffeit a llygad ddu yn iard yr ysgol, gorfod mynd o flaen prifathro ac wrth gwrs yr anturiaethau gydag Eilir. Mae hyd yn oed yn sôn am flasu ei fanana cyntaf. Gwelir ynddynt gofnod cymdeithasol o fywyd y 40au a'r 50au – bywyd sydd wedi hen ddiflannu erbyn hyn. Roedd Eglwys Capel Bangor yn llawn ar gyfer ei angladd ar ddydd Sadwrn, Ionawr 13eg.

Dymuna'r teulu ddiolch i'r Ficer, Mrs Heather Evans am arwain y gwasanaeth ac hefyd ddiolch i'r Parchedigion Elwyn Pryse ac Ifan Mason Davies am eu rhan hwythau. Carant ddiolch i Mr Maldwyn James, yr organydd ac i Dei a Nansi Evans, Tŷ Poeth am y blodau yn yr Eglwys. Diolch hefyd i Merlin Morgan a Dave Roberts am ddosbarthu'r taflenni a diolch i Eilir Morris, Dei Evans, Richard Hollier, Gerwyn Ellis, Richard a Tomi Vaughan am fod yn archgludwyr ac wrth gwrs i Selwyn Evans am ei gymorth.

Hoffai Gwen, Meinir a Dwynwen ddiolch o galon i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth ar ôl colli Aneurin. Dymunant hefyd ddiolch am y cyfraniadau a dderbyniwyd er cof amdano i Ambiwlans Awyr Cymru ac Action for Pulmonary Fibrosis.


## EGLWYS EFENGYLAIDD ABERYSTWYTH

Noson Gŵyl Ddewi
Canolfan y Gymuned, Waunfawr

**Mawrth 10fed am 6.00yh**

Croeso cynnes i bawb!

**Siaradwr**:
y Parchg Roger Thomas, Caerfyrddin

www.eglwysefengylaiddaberystwyth.co.uk


# Cyhoeddi cyflwynwyr newydd Dechrau Canu Dechrau Canmol

Bydd wynebau newydd a chyfarwydd yn dod ynghyd i gyflwyno un o gyfresi hynaf S4C ar ei newydd wedd nos Sul, 4 Chwefror ar S4C.

Mae'r gyfres grefyddol **Dechrau Canu Dechrau Canu** wedi bod yn rhan annatod o amserlen S4C ers 1989, ond o hyn ymlaen bydd pump cyflwynydd newydd yn ymuno âr rhaglen.

Yn eu plith mae cyflwynydd BBC News at Ten, Huw Edwards, a'r dyfarnwr rygbi Nigel Owens sydd wedi dweud yn y gorffennol mai'r emyn 'Mor Fawr Wyt Ti' yw'r gân olaf mae'n gwrando arni cyn camu ar y cae.

Y cyflwynydd Lisa Gwilym, yr actor a cherddor Ryland Teifi a'r cyflwynydd Nia Roberts, sydd wedi cyflwyno'r gyfres yn y gorffennol, sy'n cwblhau'r rhestr.

Mae'r gyfres yn cynnwys canu mawl mewn amryw o leoliadau ar draws Cymru a chyfweliadau gyda phobl am eu ffydd a chredoau. Bydd rhaglenni arbennig yn ystod y flwyddyn yn nodi'r dyddiadau pwysig yn y calendr crefyddol ac achlysuron cenedlaethol.

Mi fydd rhaglen gynta'r gyfres yn dilyn y thema rygbi i gyd-fynd a Phencampwriaeth y Chwe Gwlad 2018. Owain Arwel Hughes fydd yn arwain y canu cynulleidfaol sy'n dod o Eglwys Dewi Sant, Castell Nedd.

Bydd sgyrsiau gyda'r sylwebydd rygbi Alun Wyn Bevan ac arweinydd Côr y Gleision, Richard Vaughan yn ogystal â chyfweliad gyda Manon a Gwenan Gravell, merched y diweddar Ray Gravell.

Meddai Amanda Rees, Cyfarwydd Creadigol Cynnwys S4C, "Mae Dechrau Canu Dechrau Canmol yn un o gonglfeini gwasanaeth S4C ar nos Sul. Mae'n gyfle i ddathlu'r traddodiad mawl a chanu arbennig sy'n ein nodweddu ni fel gwlad, yn ogystal â chyfle i gael sgyrsiau difyr gydag amrywiaeth o bobl am eu profiadau ysbrydol a'r gwerthoedd moesol sy'n bwysig iddyn nhw. Mi fydd hi'n braf iawn cael gweld y cyflwynwyr newydd ar y sgrin ym mis Chwefror, gyda phob un ohonyn nhw'n cynnig rhywbeth gwahanol a chyffrous i'r gyfres."

Recordiodd Cwmni Rondo ddwy raglen yng Nghapel y Morfa ar Ionawr 18fed. Bydd y rhaglen gyntaf sydd â'r thema Amaeth gyda Ryland Teifi yn cyflwyno a Robyn Lyn Evans yn unawdydd yn cael ei darlledu ar Chwefror 25. Bydd disgyblion Ysgol Gymraeg Aberystwyth yn perfformio yn yr ail raglen



# Barddoni, Siocled a dathlu!



Casia Wiliam, Bardd Plant Cymru 2017-2019. © Sioned Birchall

Mae cwmni siocled masnach deg, **Divine**, a **Cymorth Cristnogol** yn cynnal cystadleuaeth barddoni am y 16eg mlynedd o'r fron. Y nod yw codi ymwybyddiaeth disgyblion ysgol am fyd siocled, ffermwyr coco a Masnach Deg, a hynny drwy danio'ch dychymyg a'ch creadigrwydd drwy gyfansoddi barddoniaeth. **Casia Wiliam**, Bardd Plant Cymru 2017-2019, sy'n beirniadu'r gystadleuaeth Gymraeg a **Cas Lester** sy'n beirniadu'r gystadleuaeth Saesneg.

Ymhlith y gwobrau sydd i'w hennill mae ffilm o'ch cerdd fuddugol yn cael ei darllen gan feirniaid y categori, siocled Divine a thalebau llyfrau.

Dyma gyfle arbennig i gyfuno barddoniaeth a chodi ymwybyddiaeth am Fasnach Deg. Eleni galwn am gerddi ar y thema "Dathlu Sioceld Divine". Dyddiad cau'r gystadleuaeth yw 30 Ebrill 2018 felly dyma gyfle gwych i ysgolion, clybiau ieuenctid, teuluoedd neu grwpiau dysgu Cymraeg neilltuo gwers neu sesiwn yn ystod **Pythefnos Masnach Deg** (26 Chwefror - 11 Mawrth) er mwyn ysgrifennu campweithiau barddonol!

Cewch ddarganfod sut i ymgeisio ar y wefan hefyd.

Mae tri chategori i'r gystadleuaeth eleni sef 7 i 11 oed; 12 i 16 oed; 17 oed ac oedolion sy'n dysgu Cymraeg.

Plis rhannwch manylion y gystadleuaeth yn eang, gydag athrawon, eich ysgolion lleol, clybiau ieuentid, teuluoedd a grwpiau dysgu Cymraeg!

I dderbyn manylion cystadlu, ewch i www.divinechocolate.com/poetry neu ebostiwch Cynan Llwyd cllwyd@cymorth-cristnogol.org

Coleg Cymraeg Cenedlaethol

## Gwahoddiad

Mae'n bleser gennym wahodd trigolion ardal Aberystwyth i

Gynulliad Blynyddol y
Coleg Cymraeg Cenedlaethol

**a gynhelir ar**
**Nos Fercher 7 Mawrth 2018**
**am 6 yr hwyr yn**
**Y Neuadd Fawr, Canolfan y Celfyddydau,**
**Aberystwyth**

Bydd rhaglen y noson yn cynnwys urddo Cymrodyr er Anrhydedd ac anrhydeddu amrywiol fyfyrwyr

Os am fynychu, cysylltwch gyda e.williams@colegcymraeg.ac.uk
neu ffoniwch 01267 610400 erbyn 28 Chwefror 2018


# Colofn Enwau Lleoedd

Fis Ionawr trafodwyd *Nant y Fawnog* neu *Nant ar Fwnwg*, sef llednant i afon Rheidol islaw Pontarfynach. Yn ôl John Williams, Bwlch Bach, Southgate, enw arall ar yr un nant yw *Nant Cagal*.

Ystyr *cagal* neu *cagl* yw 'tom, baw, neu laid'. Efallai y bydd rhai ohonoch yn gyfarwydd â'r gair yn cael ei ddefnyddio am ddafad front gyda thom wedi sychu ar ei choesau ôl a'i chynffon. (Defnyddir y ffurf luosog, *caglau*, hefyd yng nghyd-destun gwallt mewn ymadroddion megis 'gwallt llawn cagle', ond wrth reswm, nid tom neu faw yw'r ystyr yma ond clymau!). Mae'n ymddangos felly i'r nant hon dderbyn ei henw am ei bod yn hynod o domlyd neu fudr. Yr un elfen a welir yn yr enw *Pentrecagal* yn Llangeler, sir Gaerfyrddin, sy'n awgrymu iddo unwaith fod yn lle nodedig o leidiog.

Yn agosach adref, gellid cymharu enwau megis *Ffosfudr* uwchlaw pentref Bont-goch; *Rhyd-domled* (gyda *tomled* o bosibl yn ffurf fenywaidd ar yr ansoddair *tomlyd*) yn ardal Trisant, ger Pontarfynach; *Bodtalog* (â'r elfennau *bod* 'trigfan, annedd' a *halog* 'budr, brwnt') ar y ffordd fynydd o Gwmystwyth i Raeadr Gwy; a *Rhydybiswail* (gyda *biswail* yn golygu 'tom, tail, neu droeth') ym mhlwyf Llanwrin, sir Drefaldwyn.

Sut bynnag, nid dyma'r unig enghraifft o *cagl* neu *cagal* mewn enwau lleoedd yn yr ardal hon. Heb fod ymhell o flaen cangen orllewinol cronfa Nant-y-moch, mae gweddillion gwaith mwyn *Nant y Cagal*. Gellir casglu felly mai *Nant y Cagal* yw'r nant sy'n llifo heibio i'r gwaith cyn ymuno â Nant Rhuddlan. Ychydig yn uwch i fyny dyffryn Nant Rhuddlan ceir cronfa ddŵr




*Map 1:25000 yr Arolwg Ordnans, 1955 ac 1948 Atgynhyrchwyd gyda chaniatâd Llyfrgell Genedlaethol yr Alban*

a elwir *Pond* neu *Lyn Nant y Cagal*, a hynny, mi dybiwn i, nid am ei bod yng nghwrs *Nant y Cagal*, ond yn hytrach am ei bod yn cyflenwi dŵr ar gyfer y gwaith mwyn o'r un enw.

Enw Saesneg gwaith mwyn *Nant y Cagal* oedd *Eagle Brook Mine*. Un ddamcaniaeth yw i'r enw hwnnw gael ei fabwysiadu drwy gamgymryd y llythyren *c* yn *cagl* am *e*, gan roi *eagl(e)*.

**Angharad Fychan**
**Paratowyd gyda chefnogaeth Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru a'r Cynllun GWARCHOD**
**www.cymdeithasenwaulleoedd.cymru**

*Crefftau Pennau*
*Coffi Boreuol*
*Byrbrydau Poeth neu Oer*
*Cinio*
*Te Prynhawn*
*Crefftau Ac Anrhegion*
Ar gau ar ddydd Llun
Brecwast ar gael
01970 820 050
Pennau

**R.J.Edwards**
Adeiladau Fferm y Cwrt
Cwrt Farm Buildings
Penrhyn-coch
Contractiwr, masnachwr gwair a gwellt
Arbenigwr ar ailhadu
Cyflenwi a gwasgaru calch, slag a Fibrophos
Lori, turiwr a malwr i'w llogi
Cyflenwi cerrig mân
01970 820149
07980 687475

TACSI EDDIE
Perchennog: Connie Evans, Gwawrfryn, Penrhyn-coch
01970 828 642
07790 961 226

# Cyngor Cymuned Melindwr

Cyfarfu'r Cyngor nos Iau Ionawr 18 yn Neuadd Pen-llwyn, Capel Bangor gyda'r cadeirydd Andrea Jones yn y gadair. Roedd yna 7 cynghorydd yn bresennol. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Llinos Jones ac Aled Jones.

Braf yw gweld bod y gwaith ar wella band eang yn yr ardal ar gynnydd.

Rhoddodd y Cynghorydd Sir, Rhodri Davies, grynodeb o beth sydd yn digwydd ynglŷn â Pont Rhiwarthen a deallir fod yna gyfarfod yn cael ei drefnu ar y safle yn fuan, pryd y gobeithir y bydd yr AC, Elin Jones, yn bresennol.

Roedd y Cyngor wedi derbyn ceisiadau am arian oddi wrth rhai mudiadau lleol ac eraill. Cafodd rhain eu trafod yn y cyfarfod.

Mae yna ddwy sedd wag ar y Cyngor ar hyn o bryd. Os oes gan rywun o'r gymuned ddiddordeb i fod yn gynghorydd bro cysylltwch â'r clerc (Lynne B Davies, Glasfryn, Capel Bangor) neu un o'r Cynghorwyr am ragor o wybodaeth. Cynhelir y cyfarfod nesaf ar nos Iau Chwefror 15 am 7.30yh yn Neuadd Pen-llwyn, Capel Bangor.



Enid Evans, Llywydd Rhanbarth Ceredigion o Ferched y Wawr, yn anrhegu Elizabeth Evans ar ei hymddeoliad o fod yn Swyddog Hyrwyddo a Datblygu Canghennau Ceredigion a Phenfro. Gweithiodd yn ddiwyd yn y swydd am 14 mlynedd, ac mewn cyfarfod o Bwyllgor Rhanbarth Canghennau Ceredigion nos Iau, 8 Chwefror, cyflwynwyd sieciau a blodau iddi fel gwerthfawrogiad o'i gwaith.

# Cymdeithas Flodau Aberystwyth a'r cylch

Roedd cyfarfod cyntaf 2018 yn dra gwahanol wrth i 5 o'n aelodau arddangos eu syniadau. Cydymdeimlwyd gyda'n Llywydd, Donald Morgan, ar golli ei fab bedydd a Lynn Lewis ar golli ei gŵr. Dymunwyd Pen blwydd hapus i'n trysorydd, Christine Gilbert. ar ei phen blwydd mawr yn ddiweddar.

Y cyntaf i arddangos oedd Pat Edwards a oedd wedi dewis yn ei geiriau hi "thema hawdd" mewn basged. Efallai iddi ddewis thema "hawdd" ond fe greodd drefniant bwrdd godidog gyda digonedd o flodau mewn lliwiau oren a hufen. Dechreuad da iawn.

Yn ail oedd Beti Wyn gyda'i threfniant modern " dau am bris un " allan o . Drefniant fertigol ar sail oriental gyda dail amrywiol gan ychwanegu tegeirian prydferth lliw gwin coch a carnasiynau pinc yn gyntaf. Yn ail creodd drefniant ar gyfer y bwrdd, wedi ei leinio o amgylch eto gyda dail llawryf ac iddew ac yna i'w lenwi deilen palmwydd wedi plethu, helyg, a thegeirian lliw piws golau tro hyn gyda'r carnasynau pinc.

Wedyn fe ddaeth Jayne Solomon gan ddefnyddio coler o sisial ar gardfwrdd mewn Lliw Pantone 2018, sef Fioled llachar i greu trefniant isel . Yng nghanol hwn fe roddodd rhosynnau mewn piws golau, rhai lelog a lliw gwin coch , i gyd wedi eu rhoi mewn grwpiau yn gelfydd. Yna fe adiodd un arall bron yn union yr un fath mewn gwyrdd llachar.

Yna tro Glenys Morgan oedd i greu dau drefniant ar y thema "Coctels" , y cyntaf mewn gwydr mawr tal , gyda Lilis, Carnasiynau, a Gerberas mewn lliwiau melyn, gwyrdd a gwyrdd gan adio ffrwythau lemwn a leim ac yna mewn bwced rhew lliw copr rhoddodd flodau Lisianthys, Alstromera a Rhosys lliwiau porffor a pinc gyda boblau a Llus yn addurn i gydfynd gyda'r thema.

I orffen noson wych fe wnaeth Donald gamu fewn ar y funud olaf gan nad oedd Lynne Lloyd yn medru bod yna oherwydd y tywydd. Gan ddefnyddio dewis Lynne o flodau, fe adiodd Gypsohilia gwyrdd hynod, Molusela, Chrysanthemums, Carnasiynau a Chlychau Iwerddon i gyd mewn gwahanol liwiau gwyrdd i greu trefniant gwych.

Roedd pawb yn cytuno fod hwn wedi bod yn syniad gwych gan brofi faint o dalent sydd gennym.

Bydd ein cyfarfodydd nesaf ar Chwefror 20fed pan fydd gennym Weithdy yng Ngofal Glenys Morgan a Mawrth 20fed pan fydd gennym arddangosfa gan Janet Pugh. Croeso cynnes i aelodau a rhai nad sydd yn aelodau am dâl o £4 ar y drws.

Dyma gyfarfodydd gweddill y tymor - i'w cynnal yn Neuadd Llanfarian am 7.30 ar nos Fawrth

Chwefror 20fed - Gweithdy - Glenys Morgan (am restr cysylltwch â Donald Morgan, Blodau'r Bedol)
Mawrth 20 - Arddangosfa - Janet Pugh
Ebrill 17 - Arddangosfa - Donald Morgan
Mai 15 - Arddangosfa
Mehefin 19 - Arddangosfa
Gorffennaf 17 - Gweithdy - paratoi i gystadlu mewn sioeau


# Adolygiad

Does fawr neb gwell na Vaughan Roderick i brynu peint iddo a dadlau am ddatblygiadau gwleidyddol y dydd. Mi sylweddolais i hynny ar fy niwrnod cyntaf yn y BBC flynydde maith yn ôl.

Mae'n wybodus, deallus, treiddgar, gwreiddiol a hynod ddireidus. Diolch i Ruth Thomas am roi'r cyfraniadau ysgrifenedig yma dros ddau ddegawd rhwng dau glawr.

Mae'r gyfrol yn deyrnged deilwng i lygad manwl a greddf gref y blogiwr. Mae'n deall sut y gall manylion bychain adrodd cyfrolau, a pham fod mathemateg mor ganolog â chymeriad ac egwyddorion yn y gêm fawr wleidyddol.

Mae'r ddwy flynedd ddiwethaf wedi'n hatgoffa nad yw'n ddoeth ceisio darogan datblygiadau gwleidyddol, ond rhagwelodd Vaughan ein senedd grog bresennol, ac mae ganddo dalent ryfeddol i sylwi ar y datblygiadau a'r cymeriadau o bwys. Gwelodd




botensial Owen Smith fel y Cymro cyntaf ers Kinnock i geisio cipio arweinyddiaeth ei blaid. Awgryma'n fwy swil y gallai Eluned Morgan olynu Carwyn yn y Cynulliad. Ac mae awgrym cryf na fydd Leanne Wood yn goroesi'n rhy hir gyda Rhun ap Iorwerth yn ei rhengoedd.

Mae yma ddadansoddi craff ar berthynas gymhleth Rhodri Morgan â'r Gymraeg, Peter Hain a Carwyn, y Ceidwadwyr a'r Cynulliad a'r dosbarth gweithiol yng nghyd-destun Brexit. 'Nid cyd-ddigwyddiad,' meddai, 'oedd fod y bws Brexit wedi ei beintio'n goch ac mai neges ynglŷn â'r gwasanaeth iechyd oedd ar ei ochr.'

Wela i fawr o dystiolaeth, er hynny, o Vaughan yn rhoi ei 'ben ar y bloc', fel yr awgryma'r teitl. Mae degawdau o ufuddhau i ganllawiau'r Gorfforaeth yn pwyso'n drwm arno ac yn ei atal rhag dweud ei ddweud mor blaen ag y gallai. Rydw i'n parchu'r canllawiau hynny, ond mae'n drueni dychrynllyd mai dyna'r unig newyddiaduraeth sydd gennym ni yng Nghymru. Mae angen colofnwyr beiddgar, pryfoclyd, sy'n tynnu blew o drwyn, yn corddi ac yn arddel safbwyntiau eraill. Mae angen codi cwestiynau sylfaenol am gyfundrefn un-blaid sy'n cynnig cyn lleied.

Yn drigain oed, gyda'r gallu a'r profiad sydd ganddo, fe allai Vaughan fod wedi dweud llawer mwy am ddisodli Dafydd Wigley, er enghraifft, ac am fethiant truenus y rhan fwyaf o aelodau Llafur Cymru yn San Steffan i ddringo o'r meinciau cefn. Mae'n cyffwrdd â'r pethau yma, ond heb ddod i gasgliadau, heb gynnig gwell a heb roi ei ben ar y bloc.

Cawn lwyth o fanylion am y drafodaeth y tu cefn i glymblaid yr Enfys yn y Cynulliad – ond dim gresynu mai'r hyn a ddigwyddodd oedd camu'n ôl o gyfle hanesyddol i dorri mowld undonog ein gwleidyddiaeth ni. Rhaid troi at fyd drama Byw Celwydd i weld unrhyw un yng Nghymru hyd yn oed yn dychmygu'r wlad wedi ei rhyddfreinio rhag Llafur.

Y siom fwyaf yw penodau cynta'r gyfrol yma. Heb flog i'w ailargraffu o 1997 i 2003, dylai Vaughan fod wedi chwysu dros ei hen nodiadau a sgwennu cyflwyniad caboledig yn cynnig cyd-destun a dehongliad cryno a choeth o'r hyn ddaw wedyn. Yn hytrach, mae'n siarad o dop ei ben i ficroffon y golygydd. Gallaf glywed ei lais, a mwynhau'r cynnwys – ond bwffe blasus sydd yma, nid y wledd y mae Vaughan yn fwy nag abl i'w chynnig inni.

**Guto Harri**

Adolygiad oddi ar www.gwales.com, trwy ganiatâd Cyngor Llyfrau Cymru.

## Llythyr

Annwyl Gyfaill,
Ddechrau mis Mawrth mae'n wythnos aelodaeth Cymdeithas yr Iaith Gymraeg, ac felly dyma anfon gair i ofyn i'ch darllenwyr ymaelodi er mwyn cefnogi'r Gymraeg.

Ers mwy na hanner can mlynedd mae Cymdeithas yr Iaith wedi bod yn brwydro i sicrhau dyfodol i'r iaith. Rydym wedi ennill llawer ond mae ffordd bell iawn i fynd cyn cyrraedd y nod. Mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno i nod y Gymdeithas o greu miliwn o siaradwyr Cymraeg, ond heb ymrwymo i'r camau gweithredu mwy manwl fydd yn sicrhau'r miliwn. Bydd y blynyddoedd nesaf yn hollbwysig o ran sicrhau dyfodol mwy cadarn i'r Gymraeg o safbwynt iechyd, darlledu, addysg a llawer iawn mwy.

Er mwyn llwyddo, mae angen rhagor o aelodau ar Gymdeithas yr Iaith ym mhob rhan o'r wlad. Mae modd i chi wneud gwahaniaeth ac felly dyma ni'n gofyn i chi am eich help. Un weithred fach. Un taliad bach bob mis neu am y flwyddyn fel dych chi'n gallu. Bydd yn gwneud gwahaniaeth a byddwch yn gwybod eich bod wedi helpu sicrhau dyfodol i'r iaith. Dewch.

Gallwch ymaelodi â'r Gymdeithas drwy ein gwefan, **cymdeithas.cymru/ymaelodi**, er mwyn talu gyda'ch cerdyn banc, neu mae croeso i chi dalu trwy siec at Gymdeithas yr Iaith Gymraeg, Ystafell 5, Y Cambria, Rhodfa'r Môr, Aberystwyth, SY23 2AZ. Mae croeso i chi ein ffonio ar 01970 624501 hefyd, am fwy o wybodaeth neu i drefnu aelodaeth dros y ffôn.

Mae angen eich cefnogaeth er mwyn i ni allu parhau i frwydro dros ddyfodol mwy cadarn i'r iaith.

Ewch ati heddiw i ymaelodi. Os na wnewch chi, pwy wneith?

Yn gywir,
Steffan Webb
Swyddog Aelodaeth Cymdeithas yr Iaith Gymraeg

## Ysgol Penweddig



Llongyfarchiadau i Glain Davies, Llandre, enillydd Gwobr Lledrith Llew yn Eisteddfod Penweddig

**Chwaraeon**
Llongyfarchiadau i'r disgyblion a fu'n cystadlu ym Mhencampwriaeth Gaeedig Sboncen Ieuenctid Cymru dros y penwythnos.

Daeth Sion Evans bl11 yn drydydd yn y categori bechgyn dan 17, ei frawd Rhys yn ail ymysg y bechgyn dan 15 ac Alys Jenkins yn bedwerydd yng nghategori'r merched dan 13.

Llongyfarchiadau mawr hefyd i bob un aeth i gynrychioli Penweddig yng Ngala nofio'r Urdd y dydd Sul diwethaf yng Nghaerdydd.

Llwyddodd y mwyafrif i gyrraedd y rowndiau derfynnol sy'n gamp aruthrol yn eu hun:
Cari Lois Davies yn 8fed yn y ras rhydd ac yn 9fed yn y ras broga i ferched Bl 9 a 10
Joseph Gorman yn 4ydd yn y ras cefn i fechgyn Bl 7 a 8
Jacob Massey yn 7fed yn y ras Pili Pala i fechgyn Bl 9 a 10
Elen Morgan yn 8fed yn y ras Pili Pala i ferched Bl 7 a 8

Yn ogystal roedd y timau rasio cyfnewid cymysg hefyd yn llwyddiannus gyda bechgyn a marched Bl 7 a 8 yn 7fed a tim Bl 9 a 10 yn 6ed.

**Clybiau Ffermwyr Ifanc**
Mae 2018 eisoes wedi bod yn flwyddyn brysur i Beca Williams, sydd yn ddisgybl blwyddyn 12 yn Ysgol Penweddig ac yn Lysgennad CFFI yr Ysgol. Nid yn unig yw hi wedi bod yn trefnu gweithgareddau ac adnoddau er mwyn ysgbrydoli disgyblion blwyddyn 7 i ymuno â chlybiau lleol, ond cafodd hefyd ei gwobrwyo fel y cadeirydd gorau dan 16 oed yng Nghystadleuaeth Siarad Cyhoeddus Cymraeg CFFI yn Felinfach yn ddiweddar. Bydd Beca hefyd yn cystadlu fel Cadeirydd gorau Ceredigion yng nghystadleuaeth siarad cyhoeddus Cymru ym mis Mawrth. Dymuniadau gorau i ti Beca.

Yn ôl Beca, mae ei phrofiadau fel aelod o Glwb Ffermwyr Ifanc wedi bod yn fuddiol iawn iddi hi. Meddai Beca, "Mae bod yn rhan o Glwb Ffermwyr Ifanc wedi ehangu fy ngorwelion a thrwy gweithgareddau amrywiol megis Siarad Cyhoeddus, Eisteddfod a Chwaraeon rwyf wedi datblygu i fod yn berson allblyg a hyderus."

**Ymweliad Dr Bleddyn Owen Huws**
Croesawyd Dr Bleddyn Owen Huws, darlithydd yn Adran Y Gymraeg Prifysgol Aberystwyth, i Adran Y Gymraeg Penweddig ar ddydd Gwener Ionawr 26 i drafod Dafydd ap Gwilym a'i gywydd 'Trafferth Mewn Tafarn', a'r nofel 'Martha Jac a Sianco' gyda Bl.13.



Llongyfarchiadau i Rhys Tanat, Llandre, enillydd Gwobr Goffa Trystan Maelgwyn yn Eisteddfod Penweddig

## *Llythyr*

Annwyl Ddarllenydd,

**YN CHWILIO AM AELODAU NEWYDD I FWRDD RHEOLI ARAD GOCH**

Mae Cwmni Theatr Arad Goch yn awyddus i benodi aelodau newydd i Fwrdd Rheoli y cwmni. Rydym yn chwilio am unigolion ymroddgar a brwdfrydig sydd ag arbenigedd yn benodol mewn un o'r meysydd canlynol: drama, theatr, addysg, marchnata a chyfathrebu, polisïau sy'n ymwneud â phobl ifanc, busnes neu godi nawdd.

Dyma gyfle i lywio a chefnogi gwaith y cwmni arobryn hwn ar drothwy dathliadau ei ben blwydd yn 30 oed.

Nid yw aelodau'r Bwrdd yn derbyn tâl am eu gwasanaeth, ond ad-delir costau teithio a chynhaliaeth rhesymol. Cynhelir o leiaf bedwar cyfarfod o'r Bwrdd bob blwyddyn ynghyd â rhai cyfarfodydd o'r is-bwyllgorau. Cynhelir y cyfarfodydd fel arfer yng nghartref y cwmni yn Aberystwyth.

Dylid gwneud cais drwy lythyr/ebost, yn nodi eich profiad a'ch cymwysterau, i'w dderbyn erbyn 6ed o Ebrill 2018. Os am sgwrs anffurfiol, cysylltwch â Jeremy Turner, Cyfarwyddwr Artistig Cwmni Theatr Arad Goch, ar 01970 617998 neu jeremy@aradgoch.org

Yn gywir
Angharad Medi Lewis

SIOP
**SGIDIAU GWDIHW**
**Shan Jones**
8 Ffordd Portland,
Aberystwyth
SY23 2NL
**01970 617092**
GWASANAETH
**GOFAL TRAED**
Ceiropodydd /podiatrydd graddedig
ac wedi cofrestru efo'r
H.C.P.C., S.R.Ch., M.Ch.S., B.S.C.Pod, Dip.Pod.Med.

# LLANDRE





Miriam yn y panto

inc
Amrywiaeth eang o lyfrau, cardiau, cerddoriaeth ac anrhegion Cymraeg.
**CROESAWIR ARCHEBION GAN UNIGOLION AC YSGOLION**
13 Stryd y Bont, Aberystwyth
**01970 626 200**

**Perfformwyr prysur**

Bu tair o ferched y pentref yn perfformio ar lwyfan Theatr y Werin yn ystod mis Rhagfyr a Ionawr. Roedd Yoyo Barron, Glain Llwyd a Miriam Llwyd yn chwarae prif rannau yn sioe Nadolig Canolfan y Celfyddydau 'The Little Match Girl', a gwelwyd Miriam hefyd yn chwarae rhan 'Little Fairy Godmother' ym mhantoneim 'Cinderella'. Llongyfarchiadau ferched ac edrychwn ymlaen at eich gweld ar y llwyfan eto yn fuan iawn.

**Llongyfarchiadau**

Dymunwn longyfarch Sioned Lyons, Coed Gruffydd, sy'n ddisgybl yn Ysgol Pen-glais, ar gael cynnig lle yn un o golegau Rhydychen i astudio Ffrangeg.

**Ymddeoliad**

Dymuniadau gorau i'r Athro Wini Davies ar ei hymddeoliad o Brifysgol Aberystwyth.

**Dathlu'r deugain**

I ddathlu'r deugain mae Nia Peris wedi cychwyn blog am antur fach y bydd yn mynd arni yn nes ymlaen eleni ar ddwy olwyn ac i godi arian i MacmillanCymru. Gellir ei ddarllen yma 234cymru.wordpress.com

**Gwella**

Da deall fod Roger Haggar, Sycamores a Sara Llewelyn, Llys Berw adref o'r ysbyty ac yn gwella.

# Cyngor Cymuned Trefeurig

Cyfarfu'r Cyngor nos Fawrth, 16 Ionawr yn Neuadd y Penrhyn, Penrhyn-coch gyda'r Cadeirydd, Richard Owen, yn y gadair, a'r cynghorwyr Edwina Davies, Iona Davies, Delyth James, Shân James, Tegwyn Lewis, Dai Mason, Gwenan Price ac Eirian Reynolds yn bresennol. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Mel Evans, a Kevin Jenkins; hefyd doedd y Clerc ddim yn gallu bod yn bresennol oherwydd anhwylder, a diolchwyd i Eirian Reynolds am gytuno i gymryd y cofnodion.

Materion yn codi: **Tan-rallt**, **Pen-bont** - roedd Mr Lowe, perchennog Tan-rallt, i ffwrdd am gyfnod yn Awstralia, mae'n debyg, ond roedd ei dad yng nghyfraith, a oedd yn byw yng Ngheredigion, wedi gofyn beth oedd y diweddaraf o ran y Cyngor. Penderfynwyd dweud wrtho fod Cyngor Trefeurig yn casglu tystiolaeth gan bobl leol am hanes y darn tir dan sylw, sef y tir wrth ochr Tan-rallt. **Y ffordd at groeslon Gogerddan** - roedd y gwaith o ledu'r ffordd wedi ei gychwyn; rhybuddiwyd y byddai'r ffordd ar gau o ddiwedd Ionawr tan ddiwedd Mawrth. Croesawyd y newydd hwn am ledu'r ffordd, gan fod y Cyngor Cymuned wedi bod yn gofyn am hyn ers blynyddoedd. **Parcio yn y Penrhyn** - roedd y Cyngor Sir hefyd ar fin cychwyn gwaith yn y Penrhyn, sef gwella'r palmant o fynedfa Tan-y-berth i gyfeiriad y Post, a chael llinellau melyn dwbl yno, a hefyd cael llinellau melyn dwbl o boptu'r fynedfa i Ger-y-llan. **Dŵr ar y ffyrdd** - adroddwyd fod dŵr yn gorlifo ar y ffyrdd yn broblem mewn sawl man pan geid glaw trwm, e.e dŵr yn hel wrth y tro am Ben-bont ac yn rhedeg i lawr at Ben-gaer; ar y ffordd fawr wrth y Garth, ac mewn sawl man arall, yn enwedig ger Gogerddan a rhwng groeslon Gogerddan a phont y Royal Oak. Penderfynwyd holi'r Cyngor Sir i weld faint o glirio cwteri oedd yn digwydd yn rheolaidd.

Gohebiaeth: daethai gwahoddiad i fynychu cyfarfod rhwng cynrychiolwyr cynghorau bro ac Arweinydd a rhai o brif swyddogion Ceredigion nos Fercher, 17 Ionawr yn Ysgol Penweddig. Gofynnwyd i Dai Mason gynrychioli'r Cyngor.

Archebiant - trafodwyd yr archebiant ar gyfer 2018/19, a phenderfynwyd cadw at yr un swm ag eleni sef £13,000. Cytunwyd i benodi Bryn Smith fel yr archwiliwr mewnol.

Ceisiadau am gymorth ariannol: dim ond newydd gyrraedd oedd rhai o'r ceisiadau ac ambell un heb ddod eto, felly penderfynwyd ystyried yr holl geisiadau yng nghyfarfod mis Chwefror.

Materion eraill: diolchwyd i Edwina Davies a'r rhai a fu'n ei chynorthwyo gyda'r goeden Nadolig a baratowyd ar gyfer yr Ŵyl Coed Nadolig yn yr Eglwys. Y Gofeb - adroddwyd fod cymorth ariannol ar gael ar gyfer gwneud gwaith ar gofebau rhyfel. Roedd cofeb y Penrhyn mewn cyflwr eithaf da, ond addawodd Eirian Reynolds edrych i mewn i'r mater.









**Clwb Cymdeithasol Pêl-droed Penrhyn-coch**

CINIO DYDD SUL
PRYDAU BAR
PARTÏON
BWYDLEN BWYTY
ADLONIANT

AR AGOR O 5:30 P.M.
NOSWEITHIAU IAU A GWENER
AM BRYDIAU TEULUOL

GWASANAETH GARDDIO
ROBERT GRIFFITHS
Am bob math o waith garddio ffoniwch
(01970) 820924

eich gwefan leol
www.trefeurig.org
your local website
newyddion etc. i / news etc. to:
golygydd@trefeurig.org
William Howells,
Rhyd-y-gof, Penrhyn-coch,
Aberystwyth SY23 3EQ

SIOP A SWYDDFA BOST PENRHYN-COCH
Perchennog: Lawrence Kelly
AR AGOR
Llun – Sadwrn
7 y bore – 9 yr hwyr
Sul
7 y bore – 7 yr hwyr
Papurau dyddiol a'r Sul, llyfrgell fideo, cardiau cyfarch
siop drwyddiedig
01970 828312

MYNACH GARDEN MAINTENANCE
Torri Porfa, Sietynau, Tirlinio a Garddio
Gwasanaeth cyfeillgar a phrisiau rhesymol
Ffoniwch Meirion:
07792 457816
01974 261758
e-bost: mynachhandyman @yahoo.com

# Ysgol Pen-llwyn

**Ymweliad â'r Milfeddyg**
Bu dosbarth 1 draw ym Milfeddygfa Ystwyth ddechrau'r tymor . Anifeiliaid yw eu thema y tymor hwn ac yno cawsant weld lluniau pelydr X o esgyrn anifeiliaid a chael gweld ble mae anifeiliaid sâl yn aros eu tro am driniaeth. Dyna dda oedd dwy o'r merched yn edrych wrth wisgo fel milfeddyg a nyrs . Roedd y ci tegan yn teimlo'n well yn fuan iawn! Buont ar yr un bore yn siop 'Pets at Home'.

Cawsant gryn hwyl yn chwilota o amgylch y siop yn yr helfa drysor ac roedd y pysgod amryliw yn tynnu sylw sawl un . Diolch i staff y ddau le am fod mor groesawgar – bu'n fore gwerth chweil .

**Ysgolion Creadigol**
Fel rhan o brosiect Ysgolion Creadigol bu dosbarth 2 yn brysur a brwd iawn yn creu teyrnasoedd tylwyth teg ar dir yr ysgol o dan arweiniad Millie Jackdaw a Mark Neal. Roedd llawer o ddychymyg tu ôl i'r tai a chylchoedd tylwyth teg grewyd allan o ddail , brigau , drysau bach , pethau sgleiniog a llwch hud. Buont yn codio a chawsant hefyd gyfle i gael hyfforddiant dawns gan Rosa Carless ac roedd y Neuadd ysgol yn llawn bwrlwm a brwdfrydedd.

**Pêl rwyd**
Da iawn dosbarth 3 am gymryd rhan a gwneud eu gorau yn nhwrnamentau Pêl rwyd yr Urdd yn ddiweddar. Daliwch ati !

**Clwb yr Urdd**
Cynhaliwyd gweithgareddau crefft i blant y Cyfnod Sylfaen ar nos Fercher tra bu Cyfnod Allweddol 2 yn ymarfer ar gyfer cystadlaethau'r Urdd y nos Fercher ganlynol.





**Gala nofio**
Llongyfarchiadau calonnog i Ana Joyce ar ddod yn gyntaf yn y ras nofio broga i ferched blwyddyn 5 yng Ngala derfynol Cylch Aberystwyth yn ddiweddar.

**Disgo Dwynwen**
Bu'r disgo gynhaliwyd yn Neuadd y pentref ar ddydd Santes Dwynwen yn llwyddiant mawr gyda'r mwyafrif o blant yr ysgol a'u rhieni yn bresennol . Bu llawer o ddawnsio i gerddoriaeth Gymraeg a peintio wynebau tra 'roedd digonedd o ffrwythau iach neu fisgedi a chacennau ar gael. Roedd pawb wedi mwynhau a'r plant yn edrych yn hardd iawn yn eu dillad disgo. Dewch yn ôl flwyddyn nesaf !



# Ysgol Rhydypennau









**Bingo!**

Tefnwyd Noson 'Bingo' gan Cymdeithas Rhieni ac Athrawon yr ysgol yn y neuadd ddiwedd Ionawr. Cafwyd noson gymdeithasol dda iawn gyda llwyth o wobrau da a chacennau blasus. Yn ystod y difyrrwch, codwyd dros ddau gan punt tuag at goffre'r ysgol.

**Stravagansa!**

Llongyfarchiadau mawr i aelodau band pres yr ysgol a fu'n cystadlu yn y 'Stravagansa Pres' yn Ysgol Pen-glais fore Sadwrn y 27ain o Ionawr. Yn dilyn perfformiadau ardderchog ar y dydd gan blant y band, enillodd Osian King blwyddyn 6 y drydydd wobr (£10) yn y gystadleuaeth 'Unawd i blant o dan 11 oed'. Ac fe enillodd y band yr ail wobr (£30) yng nghystadleuaeth 'Ensemble o dan 11 oed'. Campus!

**Nofio**

Da iawn i Reian Morgan, Morus Raggett, Gruffydd Siôn a Noa Elias (Tîm cyfnewid rhydd blwyddyn 4) am nofio mor wych yng Ngala Cenedlaethol yr Urdd lawr yng Nghaerdydd yn ddiweddar. Llongyfarchiadau i Noa am ddod yn bedwerydd trwy Gymru yn ei ras unigol ef (Pili Pala). Ardderchog!

**Llangrannog**

Ar fore Llun y 29ain o Ionawr, fe deithiodd 18 o blant blwyddyn 4 i wersyll yr Urdd, Llangrannog am ddau ddiwrnod o ddifyrrwch. Yn ystod y cymdeithasu a'r hwyl, bu'r plant yn brysur iawn yn mwynhau nifer o weithgareddau amrywiol gan gynnwys, merlota, gwibgartio a nofio. Dychwelodd y plant i'r ysgol b'nawn Mawrth wedi blino'n lân ond wedi mwynhau profiadau'r gwersyll yn fawr iawn.

**Diogelwch**

Diolch yn fawr i PC Goffin a ddaeth i'r ysgol yn ddiweddar er mwyn diogelu peiriannau technoleg y plant. Gan ddefnyddio inc arbennig bu'n ysgrifennu côd post cartrefi'r plant ar eu ffonau symudol, IPads a'u gliniaduron.

**'Cogurdd'**

Da iawn i bawb fu'n cystadlu yng nghystadleuaeth 'Cogurdd' yn ddiweddar. Cystadleuaeth goginio wedi ei threfnu gan yr Urdd yw 'Cogurdd'. Bu'n rhaid i'r cystadleuwyr ddilyn resait penodol, creu prif gwrs i ddau ac wrth gwrs plesio'r beirniad, sef Susan Rowland - cyn aelod staff y gegin. Llongyfarchiadau i Beca Davies Blwyddyn 5 am ennill a da iawn hefyd i Ella Thomas blwyddyn 6 am ddod yn ail . Mi fydd Beca nawr yn cystadlu yn y rownd ranbarthol yng ngheginau Ysgol Dyffryn Teifi ar yr 8fed o Fawrth. Pob hwyl iddi.

**Andy'r Animeiddiwr**

Diolch yn fawr i Andy Mc Pherson am roi o'i amser a rhannu ei sgiliau gyda'r plant yn ddiweddar. Mae Andy'n gweithio fel animeiddiwr ac yn riant yn yr ysgol. Bu'r plant wrth eu bodd yn gwrando ar Andy'n egluro'r technegau hanfodol sydd ynghlwm â darlunio ac animeiddio.

Am fwy o wybodaeth a llwyth o luniau:
*www.rhydypennau.ceredigion.sch.uk*
*@YGRhydypennau dilynwch ni ar drydar.*







# Ysgol Penrhyn-coch

**Gwersyll Llangrannog**

Braf oedd cael mynd am ddau diwrnod i ymlacio ar ôl gwyliau'r Nadolig -dyma ddarn o adroddiad Molly Robinson.

Heddiw codais yn gynnar achos roeddwn i yn mynd i Langrannog gyda fy nosbarth! Roeddwn yn hynod o gyffrous-dwi'n hoffi tripiau ysgol. Dywedais hwyl fawr i Mam a Dad; neidiais ar y bws gyda fy ffrindiau. Roedd llawer o sŵn ar y bws wrth i bawb siarad am yr hyn oedd i ddod. Wrth gyrraedd daeth Gwydion i ddweud helo a danfon pawb i'w ystafelloedd er mwyn dad-bacio. Unwaith canodd y gloch aethom i'r Neuadd achos roedd Gwydion eisiau croesawu pawb i Langrannog ac i siarad am drefnu dril tán!.......

**Gala nofio**

Buodd y plant canlynol yn cynrychioli'r ysgol yng Ngala nofio cylch Aberystwyth-criw campus! Ffion Curley, Lowri Bishop, Mari Gibson, Gwenan Jenkins a Steffan Gillies.

**Gweithdy Oriel a Chrochenwaith**

Cafwyd spardun pwrpasol a chreadigol iawn i gychwyn ein thema am y tymor sef 'Yr Oriel'-cawsom ddiwrnod llawn dop yn Neuadd y Celfyddydau lle bu'r plant yn gwerthfawrogi arddangosfa Chwedlau yng Ngaleri 1 o dan arweiniad Anna  o amgueddfa y dref. Cafodd y plant gyfle i edrych ar amrywiaeth o luniau gwahanol ac yn ogystal a hynny fe greodd pawb chwedl eu hunain o fewn ffram. Gweithiodd pawb mewn grwpiau bach ac roedd eu canolbwyntio a'u mwynhad yn amlwg wrth y tawelwch oedd yno!

Cafwyd gweithdy hollol gyferbyniol wedyn gyda Laura yn yr adran crochenwaith - celf hollol wahanol wrth i bawb gael y cyfle i arbrofi gyda chlai - crewyd eitemau diddorol iawn ar y thema chwedlau - cestyll, cariad, dreigiau. Dewch i weld ein campweithiau yn ein horiel bersonol. Byddwn yn cynnal Oriel yn y Llyfrgell Genedlaethol i ddathlu holl waith y tymor - edrychwch allan am y dyddiad yn y rhifyn nesaf.

**Twrnament Hoci**

Llongyfarchiadau i dîm Penrhyn - serennu unwaith eto wrth ddod yn bencampwyr cyfartal gyda Ysgol Gymraeg Aberystwyth yn nhwrnament cynghrair A. Mae'r un llongyfarchiadau hefyd i dîm Bro Dafydd yn eu twrnament nhw. Hoffai'r plant ddiolch o galon i Miss Rhian Cory am ei brwdfrydedd a'i gallu i hyffoddi mor drylwyr.









**Milfeddyg yn y Cyfnod Sylfaen**

Thema plant ifancaf yr ysgol yw 'Sw bach' ac fe fuodd Kate a Nerys o Filfeddygfa Ystwyth yn ymweld â'r dosbarth. Buon nhw'n trafod gofal anifeiliaid bach gan roi ymchwiliad byr i Guto – cwningen y dosbarth. Diolch i'r ddwy am roi eu hamser i siarad gyda'r plant

**Pêl rwyd**

Cafodd Tîm pêl rwyd yr ysgol dipyn o lwyddiant yn ddiweddar wrth iddyn nhw gystadlu yn nhwrnament pêl-rwyd yr Urdd. Llongyfarchiadau ar ddod yn 2il yn erbyn Plas-crug!

**Cogurdd**

Cynhaliwyd rownd gyntaf Cogurdd yn yr ysgol gyda'r gogyddes Jo Watkins yn beirniadu – roedd ganddon ni 6 cystadleuydd sef-Lacey Walker, Megan Evans, Annie May, Tomos James, Steffan Gillies Llongyfarchiadau i Annie May James –hi fydd yn cynrychioli'r ysgol yn y rownd nesaf i lawr yn Ysgol Bro Teifi

**Clwb yr Urdd**

Mae'r aelodau wedi bod yn brysur wrth gychwyn paratoi gogyfer a chystadlaethau llwyfan a celf a chrefft. Bydd gennym barti llefaru, côr deulais, ymgom ac unigolion ar y llwyfan! Yn ogystal â hynny bydd aelodau'r cyfnod Sylfaen yn creu darnau o grochenwaith, tecstiliau, dylunio a thechnoleg a darluniau ar y cyfrifiadur.





## Ysgol Craig yr Wylfa

**Ysgolion Creadigol**
Am fis prysur iawn o waith oedd gan flwyddyn 5 a 6 yn ymwneud â Nant Seilo ar gyfer eu prosiect! Nod ein prosiect yw i ddanfon peli lawr y Nant er mwyn casglu gwybodaeth amdani gan ddefnyddio camerâu a chadw cofnod amdani. Mesur ei chyflymder oedd y dasg gyntaf er mwyn nodi am ba hyd byddai'r peli yn teithio i lawr i'r aber. Yna, ymhlith y gweithgareddau creadigol o greu map o'r ardal a'r nodweddion pwysig sydd o'n cwmpas, yr ydym hefyd wedi bod yn datblygu ein sgiliau TGCh gan ddefnyddio byrddau Arduino i reoli'r camerau bydd yn ein peli, dysgu am GPS er mwyn tracio ein peli pan fyddant yn cael eu gollwng i'r Nant. Ac ar ben y cyfan gwrando a recordio ar sain y dŵr yn llifo o dan arwyneb y Nant. Amser llawn o gyffro a mwynhad. Diolch i'r artistiaid sydd ynghlwm â'r prosiect sef Mark Neal, Laura Denning a Rosa Carless.

**Cyfansoddi Cân gyda Steffan**
Diolch i Steffan Rees o Cered a ddaeth i wneud gweithdy ukuleles a chyfansoddi cân gyda flwyddyn 5 a 6. Bydd y disgyblion yn berfformio'r gân ar fore Parêd Gŵyl Ddewi Aberystwyth, dydd Sadwrn y 3ydd o Fawrth yn Y Bandstand. Croeso i chi ddod i wrando!!

**Caryl Lewis**
Bu'r awdures Caryl Lewis yn ymweld â disgyblion blwyddyn 5 a 6. Am wledd!! Fe ddeffrodd eu dychymyg a maent wedi cael eu hysbrydoli i fynd ati i ysgrifennu storïau eu hun. Fe wnewn ein gorau glas i gadw'r gyfrinach am y patrwm orau i ddilyn er mwyn ysgrifennu stori fer!! Can ddiolch i Caryl Lewis am ei hamser a'i syniadau.





**Ysgol Greadigol**
Y tymor yma, yn nosbarth blynyddoedd 4, 5 a 6, maent wedi dechrau "Ysgol Greadigol" o dan arweinyddiaeth yr artistiaid, Elin a Llŷr. Y bwriad yw i gynyddu diddordeb mewn storïau drwy'r Gymraeg. Mae'r dosbarth ar hyn o bryd yn gweithio'n galed ac yn greadigol iawn ar stori, "Branwen". Maent wedi bod yn creu cymeriadau allan o glai, gweithio lawr ar y traeth yn gwneud amrywiaeth o bethau ac wedi bod yn brysur yn creu llyfrau braslunio eu hun.

**Gala nofio'r Cylch**
Bu 9 o ddisgyblion CA2 yn cymryd rhan yng ngala nofio'r cylch. Llwyddodd Finn, Dylan, Connor ag Erin i fynd ymlaen i'r ail rownd. Da iawn blant!

**Cerddorfa**
Dechrau mis Chwefror, aeth yr ysgol gyfan i wrando ar gerddorfa'r Sir yn chwarae yng Nghanolfan Celfyddydau Aberystwyth. Roedd y plant wedi mwynhau'r profiad yn fawr iawn!


CROCHENDY YNYS-LAS



Croeso i ffrindiau a grwpiau, a dewis di-ben-draw o ddarnau o bob lliw a llun i'w paentio.
Ar agor drwy'r flwyddyn
Archebwch le drwy ffonio:
07402 335638
www.blueislandceramics.co.uk

GWASANAETH TEIPIO
GWAITH PRYDLON A CHYWIR
PRISIAU CYSTADLEUOL
PROSESYDD GEIRIAU
PRINTYDD LLIW
IONA BAILEY
PEN-Y-BRYN
SWYDDFFYNNON
YSTRAD MEURIG
01974 831580

ANIFEILIAID TEW
eu hangen i'w lladd mewn lladd-dy lleol
Cysylltwch â
TEGWYN LEWIS
01970 880627

James Memorials
Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A BUSNESAU
Gofynnwch am bamffled rhad ac am ddim
James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

Eirian Reynolds, Tech. S.P.
GWASANAETH IECHYD A DIOGELWCH
Arolygon Diogelwch
Asesiadau Peryglon
Archwiliadau Damweiniau
Hyfforddiant
01970 820124
07709 505741

# Tasg y Tincer

Diolch i'r pedwar fu'n lliwio'r mis diwetha: Iestyn Evans, y Borth; Cennydd Davies, Llanilar; Martha Lois Roberts, Bont-goch; Anest Erwan, Bow Street. Diolch, Iestyn, am dy lun o'r carolwyr hefyd, a dy enw di ddaeth o'r het y tro hwn. Llongyfarchiadau mawr!

Mae'r Chineaid yn dathlu eu blwyddyn newydd ar 16 Chwefror eleni, felly Gung hei fat choi! i chi i gyd! Byddan nhw'n addurno eu tai, a bydd teuluoedd a ffrindiau yn dod at ei gilydd i gael gwledd o fwyd – yn union fel ry'n ni'n ei wneud adeg y Nadolig! Bydd pobl yn cael gŵyl o dân gwyllt am hanner nos, gan gredu bod y sŵn a'r cyffro yn cadw ysbrydion drwg o'u cartrefi. A bydd Mam a Dad yn rhoi arian a melysion mewn amlen goch o dan obennydd y plant, fel eu bod nhw'n cael syrpréis wrth ddeffro yn y bore!

Wyddoch chi fod gan bob blwyddyn ei hanifail ei hun, yn China? Blwyddyn y ci yw 2018. Pa anifail ydych chi, tybed? Mwnci ydw i!! Edrychwch am flwyddyn eich geni:

**Llygoden fawr: 2008**
**Bustach: 2009**
**Teigr: 2010**
**Cwningen: 2011**
**Draig: 2012**
**Neidr: 2013**
**Ceffyl: 2014**
**Gafr: 2015**
**Mwnci: 2016**
**Ceiliog: 2017**
**Ci: 2018, 2006**
**Mochyn: 2007**


Y mis hwn, beth am liwio'r olwyn sy'n cynnwys yr anifeiliaid? Marciwch y llun i ddangos pa anifail ydych chi! Anfonwch eich gwaith at: Tasg y Tincer, 3 Brynmeillion, Bow Street, Ceredigion SY24 5BP erbyn dydd Gŵyl Ddewi (Mawrth 1af) a Gung hei fat choi! i chi i gyd!



**Iestyn**

CYMRAEG

Ariennir yn Rhannol gan Lywodraeth Cymru



**Enw**

**Cyfeiriad**

**Ysgol**

**Rhif ffôn** **Oed**

SIOP Y PETHE

Llyfrau, Cardiau Cyfarch a Cherddoriaeth a llond llawr o Grefftau ac Anrhegion

**01970 617120**

Nawr yn cynnig gwasanaeth Cliciwch a Casglwch ar ein gwefan

www.siopypethe.cymru



JONATHAN LEWIS

Saer Coed / Adeiladydd

01970 880 652

07773 442 260

BRONLLYS, CAPEL BANGOR ABERYSTWYTH

ISSN 0963-925X

9 770963 925009

*Rhif 406 | CHWEFROR 2018*